



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYSAG

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MERCHER, 15FED MEHEFIN, 2016

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Glynda O'Brien

(01341) 424301

glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd: 08.06.16)

CYSAG

AELODAETH (7)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels

Gweno Glyn
Sedd Wag

E. Selwyn Griffiths

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis

Jean Forsyth

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

I. Dilwyn Lloyd

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Cristnogion a Chrefyddau Eraill

Disgwyl Enwebiad
Dr W Gwyn Lewis
Canon Parchedig Robert Townsend
Mrs Elizabeth Roberts
Cynrig Hughes
Eirian Bradley Roberts

Yr Eglwys Fethodistaidd
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Undeb Bedyddwyr Cymru
Yr Annibynnwyr
Yr Eglwys Gatholig

Athrawon

Alwen Watkin
Miriam A. Amlyn
Cathryn Davey
Heledd Owen
Disgwyl Enwebiad

ASCL
NAS/UWT
UCAC
NUT
ATL

Aelodau Cyfetholedig

Rheinallt Thomas
Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

R H A G L E N

1. GWEDDI

2. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.

4. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

6. MATERION BRYN

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. COFNODION

6 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2016.

8. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

11 - 32

(a) I dderbyn, er gwybodaeth, ffurflen monitro hunan arfarniadau ysgolion ar gyfer Gwanwyn i Haf 2016.

(Copi'n amgaeedig)

(b) I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

- (i) Ysgol Babanod Morfa Nefyn
- (ii) Ysgol Cymerau
- (iii) Ysgol Foelgron
- (iv) Ysgol Manod
- (iv) Ysgol Nefyn
- (v) Ysgol Pont y Gof

(Copiau yn amgaaedig)

9. CYNLLUNIAU LLYWODRAETH CYMRU AR ADDYSG GREFYDDOL 33 - 35

I dderbyn adroddiad cynnydd gan Lywodraeth Cymru ar adolygiad y cwricwlwm.

10. ADDYSG GREFYDDOL A'R FAGLORIAETH

I dderbyn diweddariad gan Ymgynghorydd Her GwE ar yr uchod.

11. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GWE

I dderbyn diweddariad gan Ymgynghorydd Her GwE.

12. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU 36 - 51

(a) I dderbyn cofnodion draft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2016 yn Hwlfordd.

(Copi'n amgaaedig)

(b) I nodi bod cyfarfod nesaf y Gymdeithas uchod i'w gynnal ar 23 Mehefin yn Rhyl.

(c) I ystyried enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGAU Cymru – enwebiadau yn amgaaedig.

C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 10.02.16

Yn Bresennol:

Y Cyngorydd Selwyn Griffiths - Cadeirydd

Aelodau Cyngor Gwynedd : Y Cyngorwyr Annwen Daniels, Tom Ellis a Jean Forsyth

Cristnogion a chrefyddau eraill: Dr W Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Elizabeth Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Ellis Hughes (Yr Annibynwyr), Mrs Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

Athrawon: Mrs Cathryn Davey (UCAC), Ms Heledd Owen (NUT), Mrs Alwen Watkin (ASCL)

Swyddogion: Mrs Mair Bere (Clerc CYSAG dros dro) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

GwE: Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE)

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Dilwyn Lloyd, Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT), Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig).

1. **GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Dr W. Gwyn Lewis.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf o CYSAG:

- (i) Mrs Elizabeth Roberts, Undeb Bedyddwyr Cymru
- (ii) Ms Heledd Owen (Undeb Athrawon)
- (iii) Mrs Cathryn Davey (Undeb Athrawon)

(b) Cyfeiriwyd at y ffaith y bu'n ofynnol gohirio cyfarfod diwethaf o CYSAG oherwydd nad oedd cworwm digonol i'w gynnal ond ymfalchiwyd bod Aelodau newydd wedi eu hethol o blith yr athrawon yn ddiweddar a hyderir na fydd yn rhaid gohirio cyfarfodydd i'r dyfodol.

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **MATER BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2015 fel rhai cywir.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2014-15

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2014-15, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

(A) Eglurodd Miss Bethan James mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol ydoedd crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd gan CYSAG dros y flwyddyn flaenorol a phwysigrwyd bod yr argymhellion o fewn yr adroddiad yn cael eu dwyn i sylw'r awdurdod. Tywyswyd yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan dynnu sylw bod 14 o ysgolion cynradd wedi cyflwyno adroddiadau hunan arfarniadau yn ystod 2013-14.

O safbwynt y tri chwestiwn allweddol yn fframwaith arolygu cyffredin ESTYN ac yn benodol y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd, nodwyd pwysigrwyd i Aelodau CYSAG ymweld â sesiynau addoli ar y cyd ysgolion er mwyn bodloni eu hunain bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol. Ymddengys bod un Ysgol uwchradd yng nghyffiniau Bangor yn awyddus i aelod o CYSAG Gwynedd ymweld â'r Ysgol honno ac felly byddai'n fuddiol i aelod ymweld pan ddaw'r gwahoddiad.

Tynnwyd sylw bod arolygiadau ESTYN yn ffocws i drafodaethau llynedd o safbwynt Ysgol Crud y Werin, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol y Gader. Derbyniwyd cyflwyniad gan Ysgol Crud y Werin a gwelwyd bod gwelliant yn ansawdd cynlluniau'r Ysgol dan sylw. Efallai y byddai'n amserol i wahodd Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol y Gader i gefnogi CYSAG drwy ddangos y cynnydd a wneir yn y ddwy ysgol.

Tynnwyd sylw at arfarniad gwaith CYSAG ac fe welwyd cynnydd boddhaol yn erbyn mwyafrif o'r blaenoriaethau.

Nodwyd bod un o'r argymhellion yn cyfeirio at gynnig gweithdai tymhorol i gydlynwyr pwnc wrth iddynt hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn eu hysgolion. Eglurodd Miss Bethan James ei bod wedi cynnal gweithdai o hanner diwrnod yn Ynys Môn i unrhyw Ysgol oedd angen cefnogaeth ac y byddai modd gwneud trefniadau cyffelyb yn Wynedd pe dymunir.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r broses o weithredu a monitro argymhellion CYSAG i'r awdurdod, nodwyd y byddir yn cyflwyno'r argymhellion i'r Pennaeth Addysg.

Esboniodd Miss Bethan James mai cyfrifoldeb CYSAG yw llunio maes llafur CYTŪN addysg grefyddol i ysgolion Gwynedd. Atgoffwyd yr Aelodau y bu i CYSAG fabwysiadu fframwaith cyffredin fel maes llafur CYTUN Gwynedd 2008 ac yn unol â'r rheolau dylid diwygio'r maes llafur CYTŪN pob 5 mlynedd. Cymerodd CYSAG Gwynedd benderfyniad i oedi cyn ei adolygu hyd nes y gwyddys beth fyddai'n digwydd i'r cwricwlwm newydd yn deillio o argymhellion yr Athro Donaldson. Hyderir y byddir, drwy Aelodau newydd CYSAG Gwynedd a grŵp o athrawon i gynghori, yn gallu helpu CYSAG i ymateb i egwyddorion adroddiad "Dyfodol Llwyddiannus" yr Athro Donaldson.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2014/15.

(b) Cymeradwyo'r argymhellion a gynigwyd yn yr adroddiad.

7. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd Clerc CYSAG yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw bo 5 ysgol gynradd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor yr Haf 2015. Cyfeiriwyd at ddyfyniadau wedi eu cymryd o adroddiadau ESTYN o dan y pennawd gofal, cymorth ac arweiniad dangosydd 2.3 o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Esboniodd Miss Bethan James ar yr eirfa a ddefnyddir gan ESTYN yn benodol o safbwynt addoli ar y cyd a bod yn rhaid bod yn ofalus ar sut y dehonglir y brawddegau e.e. "llwyddiannus" sy'n golygu da, "priodol" sy'n golygu digonol. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd na ddylid bod yn rhy feirniadol o ysgolion sydd wedi derbyn anfoddfaol / digonol am yr elfen gofal, cymorth ac arweiniad gan ei fod yn bosibl i'r dyfarniad fod yn cyfeirio at elfennau eraill heblaw addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy hunan arfarniadau Ysgolion Morfa Nefyn, Beddgelert, Hirael, Llanaelhaearn, Llanelltyd, Y Traeth, a dwy Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle a'r Gader gan gyfeirio at y tri chwestiwn allweddol sef:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?
3. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Gwerthfawrogwyd yr hunan arfarniadau gan Aelodau CYSAG a derbyniwyd eglurhad gan Miss Bethan James ynglŷn â'r blwch sy'n nodi safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl a'i fod wedi ei gynnwys er annog ysgolion i wahaniaethu safonau addysg grefyddol a'r medrau ac i fod yn fwy penodol o'r math o elfennau a gyflwynir yn yr adroddiad.

Tynnwyd sylw at elfennau diddorol a wna rhai ysgolion ac y byddir yn croesawu ysgolion i fynychu cyfarfodydd CYSAG i'r dyfodol i rannu arferion da gydag Aelodau.

PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau.

(b) Cymeradwyo i Miss Bethan James, Ymgynghorydd Her, wahodd Ysgol i roi cyflwyniad ar unrhyw elfen o'r hunan arfarniad a fyddai o ddiddordeb i CYSAG.

8. CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2015

Cyflwynwyd a thywyswyd yr Aelodau drwy ganlyniadau Haf 2015 sef asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 3 lle gwelwyd bod 94% wedi cyrraedd lefel 5+. Rhagwelir y byddai mwy o bwysau i'r dyfodol i gyrraedd lefelau 6 a 7. Llongyfarchir yr ysgolion lle gwelir bod 25 disgybl yng Ngwynedd yn deilwng o Lefel 8 ac roedd hyn yn glod i'r ysgolion hynny.

O safbwynt TGAU, esboniwyd bod pob plentyn yn ymgymryd â chwrs statudol addysg grefyddol ond bod astudiaethau crefyddol yn cyfeirio at y cwrs dewisol. Rhaid cofio bod rhai ysgolion yn cynnig y cwrs gydag ysgolion eraill yn cydweithio a rhannu adnoddau. Tynnwyd sylw bod y niferoedd o ymgeiswyr yn cadw'n weddol gyson o ystyried demograffi gyda 371 wedi sefyll yr arholiad a thraean ohonynt yn llwyddo i gael A*. Esboniwyd ei fod yn anodd cymharu canlyniadau yn genedlaethol oherwydd ni wyddys beth yw'r trefniadau gan fod rhai disgyblion yn dilyn y cwrs ar ôl Ysgol a rhai yn ei gyflawni ym Mlwyddyn 10, ac amrywiaeth yn yr oriau dysgu sydd ar gael i'r ymgeiswyr.

Ar y cyfan, nodwyd bod canlyniadau ar gyfer y cwrs llawn yn dda gyda chanlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion yn cynnal diddordeb bechgyn mewn astudiaethau crefyddol oherwydd, mai'n debyg, natur y pynciau cyfoes.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â'r bwch rhwng merched a bechgyn, nodwyd bod hyn yn her a sialens i ysgolion ond bod cwrs Manyleb B wedi cynyddu o ran poblogrwydd gyda'r bechgyn oherwydd efallai'r elfennau materion cyfoes a.y.b. ac y dylid cyflwyno'r pynciau hyn iddynt ynghynt yn eu gyrfa addysg grefyddol. Cydnabuwyd bod ymdrech yn cael ei wneud yn yr ysgolion ac yn aml iawn bod Adrannau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am yr un disgyblion o ran dewisiadau pynciol.

Esboniwyd bod disgyblion yn y gorffennol wedi cael dewis o ddau gwrs sef cwrs traddodiadol (Manyleb A) a chwrs cyfoes yn astudio pynciau llosg o safbwynt gwahanol grefyddau (Manyleb B). Roedd cwrs Manyleb B wedi cynyddu o ran poblogrwydd ac yn llwyddiannus hyd yn oed gyda bechgyn. Fodd bynnag, roedd bwriad gan CBAC i gyflwyno cwrs newydd yn 2017 sy'n cyfuno'r cwrs traddodiadol a'r cwrs cyfoes.

Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y wybodaeth uchod.

9. CYNLLUNIAU LLYWODRAETH CYMRU O FEWN ADDYSG GREFYDDOL

Cyfeiriwyd at lythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â newidiadau i addysg grefyddol yn sgil newidiadau i'r cwricwlwm yn deillio o adroddiad yr Athro Graham Donaldson.

Tynnwyd sylw at baragraff sy'n nodi gwahoddiad i gonsortia rhanbarthol addysg (sef GwE) i weithio gydag ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig er mwyn iddynt geisio bod yn Ysgolion Arloesol. Byddai'r ysgolion hyn yn arwain ar ddylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd, fel rhan o bartneriaeth drwy Gymru, ynghyd a rhanddeiliad perthnasol.

Teimlwyd y byddai hyn yn faich ar yr ysgolion arloesol ac o safbwynt Gwynedd dylai CYSAG gynnal trafodaethau gyda'r ysgolion er mwyn sicrhau bod y briff ym maes addysg grefyddol yn addas a pherthnasol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

10. CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG GWYNEDD 2015-16

Adroddodd Miss Bethan James y bu i CYSAG ddatblygu cynllun gweithredu llynedd yn amlinellu'r hyn roedd CYSAG am gyflawni yn ystod y flwyddyn. Nid oedd cynllun gweithredu wedi ei ddrafftio ar gyfer 2015-16 hyd yn hyn ond fe drafodwyd a phenderfynwyd ar gynnwys y materion canlynol fel rhan o'r cynllun:

- (a) Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc
- (b) Annog athrawon addysg grefyddol Gwynedd (sector cynradd ac uwchradd) ac Aelodau CYSAG Gwynedd i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu
- (c) Sicrhau bod yr ymgynghorydd her yn cynnig gweithdai tymhorol er mwyn cynnig arweiniad i gydlynwyr pwnc wrth iddynt hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn eu hysgolion
- (d) Sicrhau bod ysgolion yn ymateb i unrhyw ddiffygion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymarferion hunan arfarnu a/neu ymweliad arolygu ESTYN

Mewn perthynas â (d) uchod, nodwyd bod Ysgolion Dyffryn Nantlle a'r Gader wedi gweithio'n galed yn dilyn arolygiadau diweddar a hyderir y byddent yn barod i groesawu Aelodau CYSAG i'r ysgolion i weld y cynnydd neu yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf CYSAG.

Yn achos Ysgol y Gader roedd cyfeiriad yn Adolygiad ESTYN nad oedd rhai athrawon wedi cynnal addoliad ar y cyd yn ddyddiol ac awgrymodd yr Ymgynghorydd Her y byddai'n ymweld â'r Ysgol yn y dyfodol.

Penderfynwyd: Cymeradwyo i'r Ymgynghorydd Her i:

- (a) Iunio cynllun gweithredu am y flwyddyn 2015/16**
- (b) drefnu iddi hi, ynghyd a Chadeirydd CYSAG, ymweld ag Ysgolion Dyffryn Nantlle a'r Gader pan yn gyfleus.**

11. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

(a) Cyflwynwyd y cofnodion Cyfarfodydd diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar:

25 Mehefin 2015
25 Tachwedd 2016

(b) Rhoddwyd sylw i lythyr a dderbyniwyd gan Libby Jones, Ysgrifenyddes Cymdeithas CYSAGau Cymru yn gwahodd enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.

Tynnwyd sylw mai Mrs Ruth Davies oedd cynrychiolydd CYSAG Gwynedd ar y Pwyllgor Gwaith ond ei bod bellach wedi ymddiswyddo ers mis Tachwedd 2015 ac yn unol â chyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru bod hawl gan Wynedd i enwebu aelod i fynychu'r cyfarfodydd yn ei lle tan y cyfarfod blynyddol sydd i'w gynnal ym Mehefin 2016.

Nodwyd bod cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 8 Mawrth 2016 yn Sir Fynwy.

Awgrymwyd os oes gan unrhyw Aelod ddiddordeb mewn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru iddynt gysylltu yn uniongyrchol a Chadeirydd CYSAG Gwynedd a / neu Miss Bethan James, Ymgynghorydd Her GwE.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.

(b) Cymeradwyo i Aelodau gysylltu os oes ganddynt ddiddordeb mewn mynychu Cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ar ran CYSAG Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.20 pm

CADEIRYDD

Eitem 8

Monitro Hydref 2015 – Gwanwyn 2016

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

Ysgolion Uwchradd	Adroddiad HA	Canfyddiad Ysgol			Adroddiad Estyn	Dyddiad Arolygiad	Canfyddiad Estyn
		CA3	CA4	Addoli ar y cyd			
Gwanwyn 2016							
Syr Hugh Owen					06/05/16	29/02/16	Da

Ysgolion Cynradd	Adroddiad HA	Canfyddiadau Ysgol			Adroddiad Estyn	Dyddiad Arolygiad	Canfyddiad Estyn
		CA1	CA2	Addoli ar y cyd			
Hydref 2015							
Babanod Morfa Nefyn	✓	Da	Da	Rhagorol	17/11/15	14/09/15	Rhagorol
Foelgron	✓	Da	Da	Da	22/12/15	19/10/15	Da
Garndolbenmaen					15/01/16	09/11/15	Da
Pont y Gof	✓	Da	Da	Da	12/02/16	07/12/15	Da
Gwanwyn 2016							
Cymerau	✓	Da	Da	Da	15/03/16	11/01/16	Da
Nefyn	✓	Da	Da	Da	31/03/16	25/01/16	Da
Manod	✓	Da	Da	Rhagorol	28/04/16	22/02/16	Da
Llanllechid					20/05/16	14/03/16	Da
Craig y Deryn					20/05/16	14/03/16	
Haf 2016							
Waunfawr					23/06/16	18/04/16	
Bro Cynfal					13/07/16	09/05/16	

Ysgolion Arbennig	Adroddiad HA	Canfyddiad Ysgol			Adroddiad Estyn	Dyddiad	Canfyddiad Estyn
		CA1	CA2	Addoli ar y cyd			

Yn ystod y cyfnod tymor yr **Hydref 2015** cafodd 4 ysgol gynradd, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn.

Yn ystod y cyfnod tymor y **Gwanwyn 2016** cafodd 5 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 2 ysgol arall yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

Sylwadau Estyn:

Tymor yr Hydref 2015

Babanod Morfa Nefyn (Medi 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn hynod o effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae perthnasedd cadarnhaol yn arwain at ymddygiad da iawn gan yr holl ddisgyblion. Nodwedd arbennig yn ystod cyfnodau o gyd-addoli yw gallu disgyblion o bob oedran i fyfyrion. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrion ar bynciau cyfoes megis gofalu am yr amgylchedd.

Ysgol Foelgron (Hydref 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrion ar bynciau cyfoes, fel gofalu am yr amgylchedd ac ystyried plant a phobl llai ffodus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion.

Ysgol Garndolbenmaen (Tachwedd 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy ystod o brofiadau diddorol. Mae ganddi bolisiâu a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae'r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb sydd wedi arwain at welliant.

Ysgol Pont y Gof (Rhagfyr 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae disgyblion o bob oed yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw cynnal bore coffi yn yr ysgol i hybu Masnach Deg.

Tymor y Gwanwyn 2016

Ysgol Cymerau (Ionawr 2016)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgwr lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel. Mae'n gwerthfawrogi ac yn dathlu llwyddiannau a chyfraniadau disgyblion yn briodol. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol trwy themâu pwrpasol a chyfleoedd rheolaidd i gyd-addoli.

Ysgol Syr Hugh Owen (Chwefror 2016)**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sydd wrth wraidd y cynlluniau pwrpasol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r trefniadau bugeiliol yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu at yr ymddygiad da a'r gwelliannau mewn presenoldeb. Mae'r 'Ganolfan Gynhwysiad' yn darparu cynhaliath werthfawr i ddisgyblion bregus. Ceir rhaglen fentora fuddiol sydd yn helpu codi disgwyliadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i werthfawrogi gweithgareddau diwylliannol trwy gyfrwng amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r elfen hon yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Ysgol Nefyn (Ionawr 2016)**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel, lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned a chyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n ofalus ac ymarfer corff rheolaidd. Mae gweithdrefnau cadarn wedi eu mabwysiadu i wella presenoldeb, sydd eisoes wedi arwain at welliant.

Ysgol Manod (Chwefror 2016)**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ofalgar a chynhwysol. Mae'r pwyslais a'r effaith hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at gyfraddau presenoldeb uchel a brwdfrydedd amlwg disgyblion at eu dysgu. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned a chyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gyfoethogi drwy'r clybiau allgyrsiol a'r defnydd o asiantaethau allanol.

Ysgol Llanllechid (Mawrth 2016)**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol a moesol yn llwyddiannus. Mae'r pwyslais amlwg y mae'r ysgol yn ei roi ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn creu ethos cadarnhaol iawn. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau gwrth-fwlio ar draws yr ysgol sy'n cefnogi lles bron pob disgybl yn effeithiol iawn. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol disgyblion, er enghraifft drwy wasanaethau dosbarth a chyd-addoli, yn gadarn iawn. Trwy wahodd ymwelwyr o wledydd tramor i'r ysgol yn rheolaidd, mae'r staff yn llwyddo i atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a diwylliannau eraill yn effeithiol.

Ysgol Craig y Deryn (Mawrth 2016)**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn gadarn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgyblion bregus yn hynod effeithiol. Mae'r rhaglen gefnogi ar eu cyfer yn arbennig o effeithiol ac yn gwneud cyfraniad eithriadol at godi hunanhyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion hyn. Gwneir defnydd buddiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r disgyblion, er enghraifft yr heddlu, y seicolegydd â'r therapydd llafaredd. Mae'r cydweithio rhyngddynt a'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y disgyblion.

Enw'r Ysgol: Morfa Nefyn

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cyson dda mewn gwersi Addysg Grefyddol gyda nifer dda yn gwneud cynnydd rhagorol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cofio eu dysgu blaenorol yn dda ac yn caffael gwybyddiaeth a medrau newydd am nodweddion Addysg Grefyddol yn effeithiol.
- Gall y plant ddweud gweddi o'r frest cyn ysgrifennu gweddiau addas.
- Maent yn abl iawn i esbonio rhesymau am nodweddion moesol yn ystod y gwersi gan ddangos gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn dda iawn.
- Gall y plant siarad yn hyderus am eu crefydd ac esbonio y pwrpas o addoli.
- Yn sgil dysgu am reolau yn yr ysgol, roedd bron pob plentyn yn abl i drafod rheolau y 'cartref' yn hyderus ac yna gweithio yn ddychmygus i feddwl am reolau eu hunain yn y 'cartref'. Cofnodwyd y gwaith ar fformat poster TgCh.

Materion i gael sylw

Parhau i ddod ac agweddau o Addysg grefyddol i sylw'r plant yn rheolaidd ar lawr y dosbarth.

Parhau i astudio crefyddau eraill trwy themâu amrywiol.

Parhau i roi amrywiaeth o dasgau diddorol mewn gwersi Addysg Grefyddol.

Rhagorol

Da

*

Digonol

Anfoddfaol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

- Mae gan athrawon yr ysgol wybodaeth dda am grefydd y Cristion ac ymchwilir mewn llyfrau gwybodaeth a gwefanau amrywiol i ddarganfod am grefyddau eraill.
- Gwahoddyd ymwelwr o dras ethnig ym Medi 2015 i esbonio crefydd 'Hindwiaeth' gyda'r plant. Yn sgil hyn bu i'r plant gymharu crefydd y Cristion a chrefydd Hindw trwy thema y dosbarth.
- Dengys bod athrawon yn cyflwyno gwersi bywiog a chyfoes sydd yn hywryddo parch at wahaniaeth a chydarddoldeb hiliol trwy waith thema amrywiol. Defnyddir arteffactau i sbarduno'r plant, a gwneir hynny yn effeithiol.
- Addysgir storïau a phynciau cyfoes trwy ddullio o chwarae rol, gwersi llafar a TgCH. O ganlyniad, mae'r plant yn llawn brwdfrydedd a'u dealltwriaeth o'r maes/pwnc yn dyfnhau.
- Trwy themau y dosbarth, bydd ardal arbennig yn cael eu creu yn y dosbarthiadau e.e Bwrdd y seder (Iddewiaeth) lle bydd y plant yn chwarae rol ac yn ail greu sefyllfa yr Iddewon wrth ddathlu y Pasg 1af.
- Ymwelir a Choleg y Bala ddwy waith y flwyddyn i ddatblygu dealltwriaeth y plant o stori'r Pasg.
- Rhoddir sylw penodol i Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth trwy themâu amrywiol yn dymhorol.

Materion i gael sylw

Parhau i gyflwyno Addysg Grefyddol trwy ardaloedd y Cyfnod Sylfaen.
Ymweld ac adeiladau crefyddol fel y Mosg ym Mangor.

Rhagorol		Da	*	Digonol		Anfoddfaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy	Nac ydy
--------------------------------------------------------------	-----	---------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

- Mae gwasanaeth boreol yn amrywiol ac yn gosod cywair cywir i'r plant ar ddechrau pob dydd yn yr ysgol.
- Trwy ein hamserlen dynn bydd y plant yn derbyn amrywiaeth o straeon h.y straeon o'r Beibl, straeon cyfoes a thasgau ymarferol.
- Bydd yr ysgol i gyd yn cyd ganu emynau traddodiadol a chyfoes yn rheolaidd sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y plant o addoli ar y cyd.
- Mae naws ysbrydol arbennig i'n gwasanaethau boreol ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy rannu teimladau a dweud gweddi o'r galon. Maent yn cael cyfleoedd i ddysgu crefyddau amrywiol er mwyn dangos parch ac ampathi at eraill.
- Bydd gwasanaethau amrywiol yn cael eu cynnig yn yr ysgol gyda ymwelwyr o'r tu allan yn dod i fyfyrion gyda'r plant, o ganlyniad mae gan y plant wybodaeth eang o addoli ar y cyd a pharchu eraill.
- Bydd yr ysgol yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch mewn adeiladau amrywiol y pentref e.e Eglwys Gatholig, Eglwys Fair a'r Capel. Mae hyn yn cyfoethogi dellatwriaeth y plant o fannau addoli yn y pentref ar defnydd ohonynt i addoli ar y cyd.
- Codir swm anrhydeddus yn flynyddol ar gyfer elusennau bob blwyddyn. Yn sgil hyn, mae'r disgyblion yn dangos empathi, parch, gofal a phryder at rhai llai ffodus na hwy e.e plant mewn angen (diwrnod a drefnir gan y Cyngor Ysgol) Cymorth Cristnogol (Masnach Deg/Fferm Affrica) casgliad yng ngwasanaeth Diolchgarwch, heb anghofio elusennau lleol fel Ty Gobaith, ac Ambiwlans Awyr .
- Dysgir y plant am gefndiroedd a gwerthoedd plant o ardaloedd a gwledydd eraill. Mae darpariaeth a chysylltiad yr ysgol ag Annos Affrica yn cael effaith ar y plant a dyfnau eu dealltwriaeth.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Dim materion penodol

Rhagorol	*	Da		Digonol		Anfoddfaol	
----------	---	----	--	---------	--	------------	--

Llofnod: *Nia Wyn Williams* (Pennaeth)

Dyddiad: 22/10/15

Enw'r Ysgol: CYMERAU

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Mae'r plant yn dangos safonau da yn eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol. Maent yn cyfrannu'n effeithiol ac yn bwrpasol, gan ddangos parch at ei gilydd ac eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn dda. Maent i gyd yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd.

Mae'r ysgol yn hel bocsys *Operation Christmas Child* yn flynyddol – yn casglu nifer fawr o focsys bob blwyddyn. Mae'r Cyngor Ysgol yn trefnu ymgyrchoedd i gasglu arian i elusennau yn rheolaidd – e.e. Plant Mewn Angen, Canser MacMillan.

Trwy wersi a thrafodaethau am drychinebau byd eang, mae'r disgyblion yn trafod cyfiawnder a thegwch yn effeithiol.

Gall disgyblion adrodd straeon crefyddol yn effeithiol drwy ysgrifennu straeon a chwarae rôl. Maen't yn gwybod llawer o straeon crefyddol ac yn gallu disgrifio sut y mae pobl yn ymarfer eu ffydd

Yn y sesiynau addoliad torfol wythnosol, mae'r plant yn myfyrio ac yn gweddio o'r frest gan ddangos empathi, goddefgarwch a chonsyrn am eraill.

Mae ganddynt werthfawrogiad da o gredoau eraill yn ogystal â Christnogaeth.

Mae'r ysgol yn llwyddo i baratoi disgyblion sy'n cyflawni'n dda ac amlygir hyn trwy eu hymddygiad a'u boneddigeiddrwydd.

Materion i gael sylw

Parhau i ddatblygu gwybodaeth am grefyddau gwahanol gan ganolbwyntio am ddysgu am negeseuon crefyddau ar sut i fyw yn dda.

Rhagorol

Da

x

Digonol

Anfoddhaol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am

ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.

- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Rydym yn cynllunio'n addas ar gyfer y pwnc. Caiff y gwersi eu cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb a chynnig ystod o brofiadau a gweithgareddau gwerthfawr a diddorol. Mae cynlluniau'r athrawon wedi'u cynllunio'n fanwl a'u diffinio ar gyfer medrau a'r Fframweithiau. Mae' pwnc yn cael ei amserlennu'n addas yn yr ysgol. Defnyddir athrawes arbenigol yn CA2 i addysgu Addysg Grefyddol ar draws y dosbarthiadau

Defnyddir nifer o strategaethau addysgu amrywiol wrth addysgu Addysg Grefyddol i gymell diddordeb y disgyblion ac mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol gan ddangos boddhad. Cyfoethogir profiadau plant trwy gyfuniad o waith da ar ac oddi ar y safle trwy ymweliadau amrywiol a gweithgareddau allgyrsiol (e.e. ymweliad blynyddol i Coleg y Bala i ddysgu am y Pasg).

Gwneir defnydd cyson o Asesu ar gyfer Dysgu i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae strategaethau AaGD wedi/yn cael sylw fel un o brif flaenoriaethau'r CDY. Mae'r plant yn datblygu i bennu eu m.p.II. eu hunain i dasgau. Mae'r plant i gyd, gan gynnwys y rhai yn y CS yn adfyfrio ar ddiwedd tasgau ffocws gan ddadansoddi os ydynt wedi llwyddo yn eu tasg.

Drwy addysgu'n thematig gan gynnig cyfleoedd i'r disgyblion arwain eu dysgu eu hunain, mae gwaith cynllunio i addysgu Addysg Grefyddol fel pwnc yn sicrhau bod cwricwlwm cyfan yr ysgol yn cael ei gyfoethogi – e.e. drwy addysgu am Ddaeryddiaeth yn y newyddion ac am enwogion.

Materion i gael sylw

Sicrhau digon o adnoddau ac artiffactau i addysgu'r plant am greodau ac arferion eraill.

Parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu Addysg Grefyddol yn drawsgwricwlaidd.

Parhau i geisio adnabod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd drwy Addysg Grefyddol

Rhagorol

Da

x

Digonol

Anfoddhaol

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?

Ydy

Nac ydy

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Defnyddir ystod eang o strategaethau yn ystod gwasnaethau boreol i hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion. Mewn sesiynau addoli ar y cyd rhoddir rhan weithredol i'r plant a'u hannog i fyfrio, a dod yn ddigon hyderus i weddio'n syml o'r frest.

Gwahoddir aelodau o'r gymuned yn rheolaidd i roi gwasanaethau crefyddol i'r plant – e.e. y Tad Dylan a

Nia o Coleg y Bala.

Rydym yn sicrhau bod agweddau moesol, yn ogystal ac ysbrydol, yn rhan o'r gwasanaethau. Rhoddir sylw i ddigwyddiadau/trychinebau byd-eang mewn gwasanaethau ac mewn gwersi i ddatblygu empathi tuag at eraill.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Mwy o ganu crefyddol (emynau a.y.y.b.) yn y sesiynnau addoli torfol yn CA2
Gwell strwythur i'r cyfnodau addoli yn y dosbarthiadau.

Rhagorol		Da	x	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Llofnod: **E. Rhys Williams** (Pennaeth)

Dyddiad: 13-04-2016

Enw'r Ysgol: FOELGRON

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Y mae Ysgol Foelgron yn gwasanaethu ei chymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol.

Mae yn sefydliad hapus, gofalgarn a diogel lle caiff Efengyl Iesu Grist ei feithrin a'i ddatblygu. Mae datblygu'r disgyblion yn gristnogion hylaw yn rhan anodod o drefniadaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymfalchio yn ymroddiad a theyngarwch y disgyblion at eu cyd ddydd ar lefel teulu, cymunedol a thu hwnt. Mae'r ysgol yn ymfalchio yn galluoedd y disgyblion i feddwl am eraill ac igyfrannu at fywydau eraill er mwyn eu gwella. Ma gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o ddisgwyddiadau ar draws y byd sydd yn gallu effeithio ar ddynol ryw o ddydd i ddydd ac i'r dyfodol.

Gweledigaeth yr Ysgol yw ein bod yn darparu awyrgylch ac amodau lle y gall pob plentyn ffynnu. Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewnl) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gyrhaeddiad blaenorol ac yn erbyn ei dargedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion. Y mae arsylwadau gwersi yn dangos fod gan y disgyblion agweddau positif at ddysgu.

Roedd presenoldeb y flwyddyn ysgol 2014-15 yn 95.9% ar gyfer disgyblion o oed mynychu gorfodol. Mae pob disgybl yn cyrraedd yr Ysgol yn brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau ers blynyddoedd. Y mae'r rhieni yn ymrwymedig i gadw'r lefel presenoldeb yma. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn y ffeil goch sydd yn arf i fonitro unrhyw bryderon am bresenoldeb mor fuan a phosib.

Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol nac o fwlio. Mae polisi cynnal ymddygiad a holl ethos yr Ysgol yn hyrwyddo brawdgarwch a chyd-fyw. Hyrwyddir parch at wahaniaethau a chydaddoldeb hiliol trwy ein gwaith ABCh a'n gwasanaethau.

Materion i gael sylw

Cydweithio ag Ysgolion Eglwysig eraill i drafod arfer dda a rhannu arbenigeddau.

Rhagorol		Da	*	Digonol		Anfoddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Mae'r ysgol wedi derybyn amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol gan gynnwys Y Canon Andrew Jones, Nia Williams o Goleg Y Bala, NSPCC, Hafan, Yr Heddlu, Cymorth Cristnogol, Operation Christmas Child.....

Mae'r ymweliadau yma i gyd yn cyfrannu at ddatblygiad ac ansawdd dealltwriaeth y disgyblion o'i hawliau dynol ac hawliau eraill o fewn eu teulu, cymuned ac ehangach.

Casglwyd arian tuag at sawl achos da dan arweiniad y Cyngor Ysgol. Mae hyn yn cynnwys, Tŷ Ronald Mc Donald, Macmillan, Marie Curie, Ambiwylans Awyr, Plant mewn Angen, Cymorth Cristnogol. Mae digwyddiadau ac achlysuron yma oll yn cyfrannu at weledigaeth Cristnogol y disgyblion a'i gallu i wneud rhywbeth bach sydd yn llwyddo i gael effaith mawr.

Bydd arian ein gwasanaeth Diolchgarwch/Nadolig yn mynd i elusen o ddewis y Cyngor Ysgol.

Mae'r ysgol yn cefnogi Operation Christmas Child yn flynyddol.

Mae gan yr ysgol Ffynnon ddŵr sydd yn rhan o elusen Aqua Aid. Mae'r disgyblion yn llawn ymwybodol bod cyfraniad ariannol yr ysgol at y ddŵr yma yn cael ei wario i wella ansawdd ddŵr mewn gwledydd trydydd byd.

Mae'r ysgol yn ran o gynllun Bag2school ac yn gwneud casgliadau yn dymhorol. Mae'r ysgol yn gweld y gwerth yn hyn gan ei fod yn annog y disgyblion au teuluoedd i wneud defnydd effeithiol o wastraff er mwyn gwneud gwahaniaeth. Mae'r ysgol yn derbyn oddeutu £250 y flwyddyn fel cyfraniad i'r ysgol o'r cynllun yma.

Mae gan yr Ysgol berthynas byw, iach, llwyddiannus ac effeithiol gyda'r Eglwys. Mae hyn yn digwydd drwy ymweliadau misol gan y Canon a Ciwrat Lleol ac ymweliadau gwasanaeth tymhorol gan Nia Williams Coleg y Bala. Mae'r ysgol yn cyfrannu at wasanaethau amrywiol o fewn yr Eglwys a Chapel yn dymhorol megis Diolchgarwch, Nadolig a Phasg.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol ac eang o ganeuon gwreiddiol ac rhai wedi eu trefnu gan yr ysgol i gyfoethogi ac ehangu dealltwriaeth y disgyblion o faterion, straeon a digwyddiadau Cristnogol.

Mae'r ysgol wedi mynchu Coleg y Bala yn ystod cyfnod Y Pasg a darparwyd gweithgareddau cynhwysfawr ysgol gyfan i ddisgyblon 3-11 oed a oedd yn rhannu negesuron y Pasg mewn modd byw, creadigol, diddorol a heriol i'r disgyblion. Yn flynyddol bydd disgyblon B6 yn ymweld â'r Gadeirlan ym

Mangor er mwyn mynychu gwasanaeth arbennig.

Mae'r ddarpariaeth ABaCh yn ogystal ag arferion beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch tegwch a pharch yn rhagorol.

Rhoddir pwyslais ar Gristnogaeth yn ein gwersi Addysg Grefyddol. Y mae'r disgyblion yn meddu ar wybodaeth dda o straeon o'r Beibl ac o neges Efengyl Iesu Grist.

Mae'r Ysgol yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi Addysg Grefyddol yn unol a gofynnion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Cryfderau Allweddol

Mae'r ysgol yn llwyr ymfalchio yn y teimlad cartrefol sy'n cael eu amlygu yma. Mae hyn yn disgwydd drwy sicrhau cyfleoedd i annog ac atgyfnerthu parch ac hyrwyddo gwerthoedd bywyd. Annogir y disgyblion hŷn i fyfyrio are u cyfraniadau o fewn teulu'r ysgol, cartref, cymuned a byd eang.

Mae rheolau'r ysgol yn cael eu cyflwyno a'i atgyfnerthu yn rheolaidd mewn sesiynnau ABaCH, talkabout a Webster Stratton. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaolar ymddygiad ac agweddau'r disgyblion tuag at eu gilydd.

Nododd pob rhiant yn yr holiadur Mai 2015 fod cyfraniad Cristnogol yr ysgol yn effaith gadarnhaol ar eu plentyn.

Nododd pob disgybl yn holiadur Mai 2015 fod pawb yn teimlo yn rhan bwysig o deulu a bywyd yr ysgol.

Mae'r Cyngor Ysgol yn cymeryd eu rolau o ddifrif yn yr ysgol. Mae pob disgybl namu 1 ar y Cyngor Ysgol gyda cynrychiolaeth o 2 ddisgybl B2 o ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae 1 disgybl wedi dewis peidio bod ar y Cyngor Ysgol a pharchir y dymuniad yma. Mae'r disgyblion yn dda am wrando ar eu gilydd ac yn gallu ymdrin a sefyllfaoedd mewn modd sensitif ond aeddfed. Mae'r disgyblion hŷn oherwydd natur yr ysgol yn ofalgar iawn o'u gilydd ac yn datblygu rôl gwarchodol o oed ifanc iawn.

Mae holl staff yr ysgol yn cyfrannu at fywyd a gwerthoedd yr ysgol yn llawn ac mae ymdeimlad cryf yma o deulu ysgol. Cydnabyddir cyfraniad pawb fel allwedd i lwyddiant. Mae'r disgyblion yn gwybod at bwy i droi mewn achosion o bryder ac maent yn barod i siarad gyda pob oedolyn. Mae staff yn llawn ymwybodol o gyfrinachedd materon sensitif ac yn deall gofynnion y Côt Ymarfer Amddiffyn a Diogelu Plant.

Mae'r disgyblion yn gwybod at bwy i ofyn am gymorth cymdeithasol ac addysgol.

Mae ymwelwyr gan gynnwys tim arolygu Estyn wedi nodi a chyfeirio at safon uchel ymddygiad gofal a pharch y disgyblion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae'r ysgol yn cyd weithio'n agos iawn gydag ysgolion y dalgylch gan gynnwys yr ysgolion Uwchradd

Ileol. Mae hyn o fewn agweddau rheolaethol, cwricwlaidd a chymdeithasol. Trefnir twrnamentau hoci a rygbi ble mae'r timau yn gymysg o sawl ysgol. Rhoddir hyn gyfleoedd addas a hwyliog i'r disgyblion adnabod cyfoedion a'u darparu ar gyfer y trosglwyddiad i'r uwchradd.

Y mae gweledigaeth Gristnogol glir gan yr Ysgol. Lluniwyd a thrafodwyd y weledigaeth ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid. Cynhelir gwasanaethau a gwersi penodol ar y gwerthoedd Cristnogol sydd yn sail i'r weledigaeth. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i ymestyn dealltwriaeth ac i fynegi'r gwerthoedd mewn amrywiol ddulliau.

Y mae staff yr Ysgol a'r llywodraethwyr yn ymateb yn llawn i anghenion addysgol pob plentyn gan gynnwys y rhai sydd ar gofrestr ADY. Drwy wneud hyn sicrhawn ein bod yn cydnabod cymeriad Cristnogol yr Ysgol drwy greu ethos sydd yn cefnogi dysgu effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarn gyda'r Eglwys a'r gymuned ehangach. Y mae nifer o'r disgyblion yn mynychu'r Ysgol Sul o fewn y pentref a phentref cyfagos.

Cawsom 1 ymweliad dros y ddwy flynedd diwethaf gan yr Esgob Andy a Canon Townsend cyn eu ymweliad ac Uganda.

Y mae cyswllt clos rhwng yr Ysgol a'r Canon Andrew Jones a bydd ei gyfraniad yn werthfawr iawn yn ddiweddar pan bu farw tad un o ddisgyblion yr ysgol.

Bydd gwasanaethau misol yn cael eu cynnal a cyfrannodd y Canon yn werthfawr iawn yn ein priodas yn eglwys Llanbedrog.

Mae 2 o ddisgyblion yr ysgol wedi eu derbyn yn yr Eglwys yn ddiweddar ac wedi mynychu gwersi addoli ac astudiaethau Beiblaidd yn wythnosol gyda'r Ciwrat ar Canon.

Y Llywodraethwr ar ran yr eglwys yw ein Cadeirydd Mr Noel Dyer sydd newydd ymddeol fel athro Addysg grefyddol ysgol Glan y Môr.

Yn flynyddol bydd disgyblion blwyddyn 6 yn treulio'r diwrnod yn y Gadeirlan ym Mangor. Diwrnod i ddathlu diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd ac i edrych ymlaen at eu cam nesaf yw'r diwrnod. Mae'r staff wedi cael cyfle i fynd gyda'r disgyblion i'r digwyddiad ac mae hyn wedi bod yn hyfforddiant ac yn ddatblygiad proffesiynol iddynt hwythau.

Mae ein Celf Cristnogol wedi cyfrannu at arddangosfa o fewn y dosbarth er mwyn cynnig llecyn myfyrio ac adlewyrchu. Gall y disgyblion gyfrannu unrhyw bryd y dymunant. Gall hyn cael ei wneud yn gyhoeddus neu ar adegau tawel yn annibynnol.

Y mae cyflenwad da a digonol o adnoddau Addysg grefyddol ar gael yn yr Ysgol.

Cryfderau Allweddol

Mae'r Pennaeth a'r staff yn modelu ac yn hyrwyddo ymddygiad a gwerthoedd sy'n cyfrannu'n

gadarnhaol at greu ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Materion i gael sylw

Efeillio gydag ysgol drwy waith Oxfam neu Cymorth Cristnogol.

Rhagorol

Da

*

Digonol

Anfodddhaol

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?

Ydy *

Nac ydy

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.

Mae cynllun cyd-addoli, wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau yn wythnosol fel rhan o chyfnodau addoli ac yn ein gwasanaethau. Drwy ein gwasanaethau, ein cynllun gwaith Addysg Grefyddol a'n cynllun AbaCh mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrion ar yr hyn a drafodwyd. Cant gyfle hefyd i fyfyrion ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau cylch yn wythnosol yn yr Ysgol. Ceir cyfle yn y gwasanaethau hyn i fyfyrion, holi a thrafod materion sy'n codi yn yr ysgol neu y tu allan. Mae'r cyfnodau yma yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, gwrando ar eraill ac i barchu amrywiaeth barn. Mae CA2 yn astudio Daearyddiaeth o fewn y newyddion yn rheolaidd fel mae digwyddiadau ar draws y Byd y digwydd neu yn cael eu dathlu.

Mae cyfleoedd i'r disgyblion baratoi a chyfrannu at wasanaethu ysgol gyfan a munudau o fyfyrddod o fewn y dosbarthiadau yn rheolaidd. Y mae hyn yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion CA2 o themau a straeon, yn eu hannog i feddwl am ddulliau effeithiol o gyflwyno'r stori/ thema ac yn cynnig profiadau cyd-addoliad amrywiol i ddisgyblion y CS.

Fel Ysgol Eglwys mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r disgyblion a Canon y plwyf. Bydd y Canon yn cynnal gwasanaethau yn gyson a bydd y plant hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn Eglwys y pentref a thu hwnt. - Gwasanaeth Diolchgarwch a Gwasanaeth Nadolig ar Pasg.

Mae disgyblion yr Ysgol yn cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd ar gras yn y gwasanaeth yn cyd-adrodd gweddi cyn cinio a gweddi/ gras ar ddiwedd y dydd. Cynhelir gwasanaethau a gwersi i sicrhau fod

disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Yn ystod y gwasanaethau caiff y disgyblion gyfle i fyfyrion a chyfle i ddweud gweddi bersonol. Y mae'r disgyblion yn cael cyfle i ysgrifennu gweddiau ar gyfer achlysuron penodol e.e. diolchgarwch, trychineb Nepal, Ymosodiadau Paris ayyb. Drwy gyfrwng hyn oll sicrheir fod cyfnod y cyd-addoliad yn gyfnod ysbrydol nodedig.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Disgyblion bl 5 a 6 i gadw cofnod o storïau/ themau ac emynau'r gwasanaethau ac i lunio arfarniad byr o'r gwasanaethau gan ganolbwyntio ar effaith y gwasanaethau.

Rhagorol		Da	*	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Llofnod: Judith Owen (Pennaeth)

Dyddiad: 06/05/16

Enw'r Ysgol: Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AF

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

- Mae safonau Addysg Grefyddol y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Dengys adroddiad craffu ar lyfrau'r disgyblion fod cynnydd da yng ngwaith y disgyblion yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Mae safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl yn y llyfrau gwaith yn arddangos cynnydd, dealltwriaeth priodol i oed a gallu y rhanfwyaf o'r disgyblion mewn Addysg Grefyddol yn y ddau gyfnod allweddol.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn deall ac yn gallu egluro yn glir beth yw tegwch, cyfeillgarwch, caredigrwydd, gofal a chariad tuag at eraill.
- Gall rhan fwyaf o'r dysgwyr alw i gof ac ymateb i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen. Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn gallu siarad am eu gwaith ac awgrymu mewn termau syml pam bod rhai agweddau ar grefydd yn bwysig i rai pobl – e.e. wrth ymdrin â'r thema 'Dathliadau.'
- Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu trafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmipas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barnau eu hunain - e.e. wrth ymdrin â "Beth yw heddwch?"
- Mae llawer o'r dysgwyr CS yn gallu trafod eu hymatebion ac ychydig ohonynt yn llwyddo i gyfiawnhau syniadau yn hyderus. Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn gallu cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
- Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn llwyddo i esbonio sut mae eu barnau a'u teimladau yn wahanol i rai pobl eraill.
- Mae rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu defnyddio ystod o eirfa crefyddol addas erbyn bl 5 a 6 ac yn gallu adnabod symbolau crefyddol mwyaf adnabyddus.
- Dengys adroddiad Llywodraethwraig/Rhiant fod y disgyblion yn ymateb yn ddeallus a gonest iawn mewn gwasanaethau ac yn cymryd rhan gyhoeddus mewn modd blaenllaw iawn.
- Trwy ymholiad mae aelodau'r Cyngor yn penderfynu pa elusen fydd yn derbyn arian casgliad Diolchgarwch yr ysgol. Mae pob un disgybl o'r ysgol yn ymweld a chapel lleol i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol ac yn ymweld a Chartref yr Henod i gynnal gwasanaethau Diolch a Nadolig – mae hyn yn arfer rhagorol fel ymateb i farn y dysgwyr.

Materion i gael sylw

Mwy o waith ysgrifennu estynedig ym mlwyddyn 2.

Rhagorol		Da	v	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

- Mae'r dysgwyr i gyd yn derbyn gwers Addysg Grefyddol yn wythnosol, yn unol â'r gofynion statudol.
- Rhoddir amser penodol bob wythnos i Addysg Grefyddol – Cyfnod Sylfaen: Rhoddir unai gwers Addysg Grefyddol neu cyfle i ddisgyblion drafod materion megis - pwysigrwydd cyfeillgarwch, tegwch, caredigrwydd yn draws gwriciwlaid.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir un wers Addysg Grefyddol yn wythnosol.
- Mae'r athrawon â gwybodaeth pynciol eang a chymwys iawn Mae'r cynlluniau gwaith wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â Phobl, Credau a Chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y CS. Caiff y dysgwyr eu hunain gyfleoedd i 'gynllunio'

gweithgareddau i gyfoethogi'r ardaloedd dysgu sy'n cyd-blethu ac yn atyferthu'r tasgau ffocws

- Mae cynlluniau gwaith CA2 yn gyfarwydd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr. Mae'r cynlluniau gwaith yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau trwy ryngberthynas sgiliau craidd y pwnc sef 'Ymdrin â'r Cwestiynau Sylfaenol,' 'Archwilio Credoau, Dysgeidiaethau ac Arferion Crefyddol' a 'Mynegi Ymatebion Personol.' Mae cynlluniau CA2 yn fanwl ac yn fwiadus ac yn sicrhau trefn a dilyniant. Mae rhoi sylw i Gwestiynau Mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau datblygiad pendant iawn yn sgiliau ymholi y dysgwyr.
- Mae cyfleoedd i ganolbwyntio ar yr ystod canlynol yn y cynlluniau gwaith: 'Y byd,' 'Profiad dynol,' a 'Chwilio am ystyr.'
- Cynllunir ymweliadau ag addoldai lleol ac anarferol, defnyddir arteffactau crefyddol yn bwrpasol e.e. mat gweddio Islam i hyrwyddo dealltwriaeth o grefydd arall.
- Defnyddir fidio a gwefannau i gyflwyno unedau o waith arbennig yn ddeallus a gyfer annog pob un dysgwr.
- Defnyddir Amser Cylch yn rymus i hyrwyddo medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a CA2.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd ym mhob dosbarth fel rhan o'r ABACh pan sicheir cyfleoedd da i fyfrio, holi a rhyfeddu.
- Bydd y Cyngor Ysgol yn penderfynu ar elusen yn dymhorol ac fe gyfrannwn yn hael iawn.
- Dengys adroddiad craffu ar lyfrau fod yr athrawon yn gosod nod a mpl ar gyfer y pob gwers.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl yn dda trwy gyfres o wersi ysgogol.
- Mae arsylwadau gwersi yn nodi bod tystiolaeth grymus yn seiliedig ar arweinwyr crefyddol megis Gandhi, Rosa Parks, Martin Luther ac mae gan y rhanfwyaf o'r dysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth eang o'r arferion credoau amrywiol.
- Darperir cyfleoedd cyfoethog i annog y disgyblion i feddwl yn agored ac i hyrwyddo barn ymestynnol yn enwedig mewn gwaith llafar.

Materion i gael sylw

Rhifedd trwy Addysg Grefyddol

Rhagorol		Da	v	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy v	Nac ydy
---------------------------------------------------------------------	--------------	----------------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Cyffredinol: Mae trefniadau'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles a datblygiad ysbrydol, moesol, a diwylliannol yn dda. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd safonau da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol gan gymryd i ystyriaeth canran yr amddifadedd. Mae polisiau priodol yn yr ysgol i hyrwyddo'r holl agweddau.

- Mae bron pob un gweithred o addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol.
- Mae trefniadau addoli'r ysgol yn cyfarfod â gofynion statudol. Mae naws ysbrydol arbennig i wasanaethau'r ysgol ac mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol trwy gyflwyno gwasanaethau dosbarth a thrwy rannu teimladau ar y pryd.
- Mae'r cwricwlwm ddarpariaeth Addysg Grefyddol a gynigir yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol i barchu a dangos empathi tuag at arferion crefyddau eraill.
- Rhoir cyfle clodwiw iddynt fyfrio ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain yng ngoleuni'r hyn y maent yn ei myfrio yn y gwasanaethau.
- Dengys adroddiad monitro Addoli ar y Cyd gan y Llywodraethwyr/Rhieni fod ansawdd yr addoli yn dda iawn. Cynhelir Addoli ar y Cyd yn ddyddiol yn yr ysgol – dwy waith ysgol gyfan, unwaith waith yn addoli fel cyfnodau allweddol a dwy waith yn y dosbarthiadau ac maent wedi eu strwythuro yn briodol i oedran y dosbarthiadau.
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw ac yn hyderus yn eu canu, ymateb, darllen, a thrwy gynnal gwasanaethau.
- Mae athrawon yr ysgol yn cymryd eu tro i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan yn wythnosol ac mae eu gwybodaethau yn berthnasol ac yn briodol iawn i'r gofynion.
- Mae'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan yng Ngwasanaethau Cyhoeddus gan yr ysgol – e.e. Gwasanaeth Diolchgarwch, Nadolig. Dengys holiaduron bod y gwasanaethau hyn igyd o safon uchel iawn.
- Mae ei sgiliau llefaru a gwrando ar eraill yn dda iawn - maent yn dangos parch tuag at eraill wrth wrando ac ymateb iddynt yn ddeallus a bonheddig.

- Caiff y disgyblion gyfleoedd pob tymor i wrando a chymryd rhan mewn gwasanaeth gyda Weinidog yr Ardal .
- Yn ystod y cyfnodau hyn dangosai'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o storïau o'r Beibl yn ogystal am gariad Duw a Christ.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Buddsoddi mewn Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn y Neuadd i arddangos clipiau i hyrwyddo safonau gwasanaethau ymhellach.

Rhagorol	v	Da		Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	---	-----------	--	----------------	--	-------------------	--

Llofnod: *Falmaï Wyn Ellis* (Pennaeth)

Dyddiad: 4.5.16

Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Nefyn

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Mae safonau mewn addysg grefyddol yn dda yn yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad mewn termau syml am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain a rhai pobl eraill. Yn ogystal, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o'r dysgwyr yn gallu gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau o grefydd. Mae llawer yn dwyn i gof ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt. Maent yn gallu defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas megis siarad am lyfrau arbennig fel y Beibl i Gristnogion a defnyddio geirfa yn ymwneud ag achlysuron arbennig o fewn Cristnogaeth e.e. Nadolig, Pasg.

Erbyn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu trafod eu hymatebion eu hunain ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas ac am grefydd. Maent yn gallu disgrifio a cychwyn esbonio y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir ganddynt. Gwelir hyn yn y gwaith y wnaethpwyd ar ymchwilio i sut mae gwahanol grefyddau yn dweud diolch a phwysigrwydd o ddiolch i wahanol grefyddau. Yn ogystal mae bron bob dysgwr yn gallu cyfeirio yn benodol at y ffyrdd y bydd yr agweddau yma yn effeithio ar fywydau credinwyr. Er enghraifft sut mae'r ffordd mae diolch mewn gwahanol grefyddau yn effeithiol ar eu ffordd o fyw e.e. diolchgarwch i'r Cristnogion, Eid-ul-fitr mewn Islam a Sukkot i'r Iddewon. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hefyd yn dechrau nodi'r gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng grefyddau.

Maent yn gallu esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill. Yn ogystal maent yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn gallu defnyddio ystod o eiriau crefyddol. Gallent ddefnyddio geirfa yn ymwneud â man addoli, digwyddiadau a gwyliau grefyddol ac adnabod symbolau fel y groes mewn Cristnogaeth, seren Dafydd mewn Iddewiaeth.

Materion i gael sylw

Er fod dysgwyr yn cyflawni yn dda yn y pwnc erbyn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae angen sicrhau fod gwaith ymestynnol yn cael ei roi i'r dysgwyr mwyaf medrus ar draws yr ysgol er mwyn galluogi i gyrraedd lefelau uwch yn y pwnc a hyn yn cael ei wneud drwy weithgareddau gwahaniaethol ac amrywiol.

Rhagorol		Da	*	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Mae'r pwnc yn cael ei addysgu'n reolaidd ym mhob dosbarth ac mae gan yr athrawon wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc. Yn amlwg mae'r athrawon yn manteisio ar y cyfle i ddysgu medrau meddwl drwy astudio'r pwnc. Gwelir ddefnydd o hetiau meddwl, gwaith grŵp a chydweithio a graff ffrwd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn Cyfnod Allweddol 2 gwelir ddefnydd o fap meddwl, datrys problemau gyda hetiau meddwl a phennu meini prawf llwyddiant. Yn ogystal mae'r athrawon yn defnyddio addysg grefyddol fel pwnc i ddatblygu sgiliau TGCh gyda brawddegau am y Nadolig a geiriau cyfeillgarwch yn cael eu teipio yn y Cyfnod Sylfaen a gwybodaeth yn cael ei gasglu a'i gyflwyno ar y cyfrifiadur yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynlluniau sydd wedi ei gwneud gan yr athrawon yn sicrhau fod llinynnau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gwau drwy'r

holl feysydd. O ganlyniad mae mwyafrif o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y pwnc yn datblygu sgiliau llythrennedd gyda ambell enghreifftiau o rifedd yn cael eu ddatblygu o fewn y pwnc hefyd.

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddarpariaeth gwahanol i addysgu addysg grefyddol. Yn llyfrgell yr ysgol, mae gan bob dosbarth fynediad i wahanol lyfrau yn ymwneud â'r pwnc ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r we fel ffynhonnell i gasglu gwybodaeth. Gwelir ambell arteffactau yn rhai dosbarth ac mae'r ysgol yn y broses o gasglu mwy o arteffactau crefyddol i gyfoethogi'r dysgu. Bydd defnydd effeithiol yn cael ei wneud o asiantaethau allanol megis yr eglwys a'r ficer lleol i ehangu profiadau'r dysgwyr.

Mae arsylwadau gwersi a gwaith y dysgwyr yn dangos safonau uchel mewn addysg grefyddol ar draws bob oedran yn yr ysgol. Gwelir yn ngwaith y dysgwyr fod tasgau a gweithgareddau symbylus yn cael ei gynnig a fod gwahanol agweddau o'r pwnc yn cael ei addysgu. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r dysgwyr wedi cael cyfleodd i ymchwilio ffynonellau a materion sy'n codi drwy storïau, diwrnodau gŵyl a dathliadau drwy ddefnyddio llyfrau a gwyl arbennig fel man cychwyn i'r pwnc. Mae'r dysgwyr yn cael amryw o gyfleodd i drafod materion personol a chymdeithasol yn ystod sesiynau amser cylch ac fel rhan o weithgareddau wythnos gwrth fwlio/ffrind da. Yn Cyfnod Allweddol 2 mae'r dysgwyr yn cael cyfleodd i ymdrin a chwestiynau sylfaenol ac mynegi ymatebion personol. Yn ogystal gwelir enghreifftiau o astudio crefyddau a chredoau gwahanol megis Hindŵaeth, Iddewiaeth, Islam a Christnogaeth.

Materion i gael sylw

Parhau i gynllunio gweithgareddau amrywiol ar draws bob oedran a pharhau i gynnig cyfleodd gwahaniaethol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cynnig y lefel her priodol ar gyfer pob disgybl.

Parhau i gasglu arteffactau crefyddol i gyfoethogi'r dysgu.

Rhagorol		Da	*	Digonol		Anfoddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy *	Nac ydy
---------------------------------------------------------------------	--------------	----------------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Mae cyfnodau addoli ar y cyd yn cael eu cynllunio yn ddyddiol yn yr ysgol mewn gwahanol ffyrdd. Mae cyfnodau o addoli ar y cyd yn digwydd yn y dosbarthiadau ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Mae'r athrawon yn cynllunio sesiynau effeithiol a bywiog yn y dosbarthiadau. Yn y Cyfnod Sylfaen mae cyfleodd i'r dysgwyr wrando ar storïau moesol a chanu a dweud gweddi a mae chyfleodd i wrando ar ddigwyddiadau moesol sy'n digwydd yn y byd a chreu gweddi eu hunain yn Cyfnod Allweddol 2. Mae amserlen cynllunio gwasanaethau ysgol gyfan i'r athrawon er mwyn sicrhau fod amrywiaeth i'r cynnwys ac maent yn fywiog iawn gyda cyfleodd i'r dysgwyr wrando a chymryd rhan. Mae asiantaethau allanol yn cynnal gwasanaethau'n aml ac byddent yn rai bywiog iawn sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Parhau i sicrhau yr un safon o ddarpariaeth mewn sesiynau addoli ar y cyd.

Rhagorol		Da	*	Digonol		Anfoddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Llofnod: A.W. Jones (Pennaeth) Miss Nia M Williams (Cyd lynydd)

Dyddiad: 27/4/16

Enw'r Ysgol: Pont y Gof, Botwnnog

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Y Cyfnod Sylfaen

- Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol ar draws Y Cyfnod Sylfaen.
- Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y cyfnod ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
- Gall y rhan fwyaf gyfleu eu teimladau hefyd am brofiadau fel ymweliadau ag adeiladau arbennig, gwyliau a dathliadau.
- Gall y rhan fwyaf ddefnyddio TGCh er mwyn ymchwilio ac arbrofi mewn gweithgareddau Addysg Grefyddol.
- Gall y disgyblion archwilio arteffactau gan ddangos gwybodaeth amdanynt.
- Erbyn brig Y Cyfnod Sylfaen mae pob yn bron yn bron yn gallu ymateb i storïau a digwyddiadau, yn y gorffennol a'r presennol gan ddechrau uniaethu â theimladau eraill fel y cant eu portreadu mewn storïau a digwyddiadau crefyddol.
- Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae pob un bron yn gallu trafod a gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas, cwestiynau dynol a chrefyddol pwysig.
- Maent yn adnabod y berthynas rhwng teuluoedd, credoau a'u gweithgareddau ac yn sylweddoli fod gan bobl eraill deimladau a chredoau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn meddwl ac yn ymddwyn.

Cyfnod Allweddol 2

Gwaelod Cyfnod Allweddol 2

- Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nghw. Mae ychydig iawn yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
- Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arfeion crefyddol a sut mae rhai agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr.
- Gall lleafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn eu crefyddau.
- Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithgareddau a'u barnau eu hunain gan gynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
- Maent hefyd, yn ymwybodol bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n ddefnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
- Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae lleafrif o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn ddefnyddio ystod o eirfa crefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.
- Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd.
- Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae lleafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol.
- Yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain oherwydd natur y thema mae tua hanner y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymleth ac mai rhannol ac amhendiant yw'r atebion yn aml.

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro cyson y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn **dda** ar draws yr ysgol.

Materion i gael sylw

Y Cyfnod Sylfaen

- Parhau i ddatblygu eu sgiliau cofio ar ddigwyddiadau o bwys yn y gorffennol a rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol.
- Parhau i ddatblygu geirfa.

- Parhau i ddatblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd Y Cyfnod Sylfaen.

Cyfnod Allweddol 2

- Parhau i sicrhau fod y tasgau a ddarperir a gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol.
- Parhau i annog y disgyblion ddefnyddio geiriau grefyddol mewn modd addas,
- Parhau i ddatblygu'r agwedd o effaith crefydd ar fywyd credinwyr.

Rhagorol		Da	✓	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciaol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Y Cyfnod Sylfaen

- Mae athrawon Y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae cynlluniau Y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storiol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen.
- Bydd ymweliadau i'r mannau crefyddol yn yr ardal leol yn cael ei drefnu'n dymhorol.
- Gwahoddir ymwelwyr i'r ysgol er mwyn arwain y gwasanaethau.
- Cynhelir gwasanaethau crefyddol dyddiol yn Y Cyfnod Sylfaen.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Neilltuir sesiwn o o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan athrawes CPA o flwyddyn 3 i 6.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â'r plant.
- Bydd ymweliadau i'r mannau crefyddol yn yr ardal leol yn cael ei drefnu'n dymhorol.
- Gwahoddir ymwelwyr i'r ysgol er mwyn arwain y gwasanaethau.
- Cynhelir gwasanaethau crefyddol dyddiol yn Y Cyfnod Sylfaen.

Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn **dda** yn yr ysgol.

Materion i gael sylw

Y Cyfnod Sylfaen

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr o fewn y cynlluniau.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl.
- Parhau i gynnig gweithgareddau Addysg Grefyddol yn yr ardal tu allan.
- Archebu mwy o arteffacatu.

Cyfnod Alweddol 2

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Parhau i osod MPLI a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrion ar y dysgu.
- Archebu mwy o arteffacatu.

Rhagorol		Da	v	Digonol		Anfoddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy	Nac ydy
---------------------------------------------------------------------	------------	----------------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth, cyfnod ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad.

Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd.

Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrion sy'n cynnwys gwranddo, gwyllo neu fyfyrion ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddio
- Canu
- Darllen

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau.

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn **dda**.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

- Efelychu yr arferion da ymhob gwasanaeth.
- Sicrhau fod Addoli ar y Cyd dosbarth/adran(CS) yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion.
- Datblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur.
- Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.

Mae darpariaeth ar gyfer Addoli ar y Cyd yn **dda**.

Rhagorol		Da	v	Digonol		Anfoddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Llofnod: Bethan Rhys (Pennaeth Mewn Gofal)

Dyddiad: 8/5/16

Diwygio'r cwricwlwm

Diweddarwyd 05 Ebrill 2016

Caiff cwricwlwm newydd i Gymru ei ddatblygu ar y cyd a gweithwyr proffesiynol ym myd addysg ar draws Cymru. Y nod yw sicrhau y bydd ar gael i leoliadau ac ysgolion erbyn mis Medi 2018.

Bydd gan ysgolion beth hyblygrwydd o safbwynt pennu sut a phryd y byddant yn cychwyn addysgu'r cwricwlwm newydd. Ein huchelgais yw sicrhau y bydd pob lleoliad ac ysgol yn defnyddio'r cwricwlwm newydd ar gyfer ategu eu haddysgu a'u dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 mlwydd oed erbyn 2021. Bydd [y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg](#) yn cyfarparu gweithwyr proffesiynol addysgol i ddarparu'r cwricwlwm newydd.

y pedwar diben

Bydd y pedwar diben wrth wraidd ein cwricwlwm newydd. Byddant yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ynghylch y cynnwys a'r profiadau a gaiff eu datblygu fel rhan o'r cwricwlwm er mwyn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Nodweddion allweddol

Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys:

- chwe maes Dysgu a Phrofiad cyffredin o 3 i 16 oed
- tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd- llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- pwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed

- deilliannau cyflawniad sy'n disgrifio cyflawniadau disgwyliedig ym mhob pwynt cyfeirio ar gyfer cynnydd.

Caiff y cwricwlwm ei drefnu'n chwe Maes Dysgu a Phrofiad

- Y celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed)
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg, a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed, ac ieithoedd tramor modern)
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys cyfrifiadureg).

Amserlen

Rydym yn nodi isod y lefel uchel o gerrig milltir allweddol.

2015 - 2016 : Sefydlu rhwydwaith Arloesi

2015 - 2018: Cyfnod cynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd

Gorffennaf 2016: Bydd holl Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd wedi datblygu eu cynlluniau gweithredu unigol

Medi 2016: Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gael

2017 - 2021: Cefnogaeth ymarferol i ysgolion i'w paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd

Gorffennaf 2018: Yn genedlaethol, bydd cynnig dysgu proffesiynol cyson ar gael i holl ymarferwyr ledled Cymru

Medi 2018: Y cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu newydd ar gael

Medi 2021: Y cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu yn eu lle

Mae cynllun i gynllunio a datblygu cwricwlwm newydd a fframwaith asesu wedi'i ddatblygu ar y cyd ag Ysgolion Arloesi a rhanddeiliaid allweddol.

Cyflwyniad

[Diwygio'r cwricwlwm: crynodeb - Ebrill 2016](#) (Maint ffeil: 2.1MB)

Fideos

Mae fideo [o ddisgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr yn holi'r Athro Donaldson](#) i'w weld ar YouTube nawr.

Cysylltu â ni

E-bost: Curriculumforwales@cymru.gsi.gov.uk

LAWRLWYTHO DOGFEN



[Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes](#) (Maint ffeil: 1.1MB)



[Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru](#) (Maint ffeil: 134KB)



[Rhestr o ysgolion Arloesi](#) (Maint ffeil: 240KB)



[Cynllun ar gyfer cynllunio a datblygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu](#) (Maint ffeil: 360KB)

Eitem 12

Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Hwlfordd, 8 Mawrth 2016 (11am – 3pm)

Wales Association of SACREs meeting, Haverfordwest, 8 March 2016 (11am – 3pm)

Yn bresennol/ Attendance

Ynys Môn / Anglesey Bethan James Rheinallt Thomas	Sir Ddinbych / Denbighshire	Powys
Blaenau Gwent Gill Vaisey	Sir y Fflint / Flintshire	Rhondda Cynon Taf Gill Vaisey
Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Vicky Thomas Edward Evans	Gwynedd Bethan James	Abertawe / Swansea Vicky Thomas Rachel Bendall Alison Lewis
Caerffili/ Caerphilly Vicky Thomas	Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Vicky Thomas Ernie Galsworthy	Torfaen /Torfaen Vicky Thomas
Caerdydd / Cardiff Gill Vaisey Gillian James Kate Church	Sir Fynwy / Monmouthshire Gill Vaisey	Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Gill Vaisey
Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Mary Parry Meinir Wynne Loader Helen Gibbon Gwyneth Thomas	Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Jen Malcolm	Wrecsam / Wrexham Libby Jones
Ceredigion Lyndon Lloyd	Casnewydd / Newport Huw Stephens Vicky Thomas	Sylwedyddion / Observers Janet Ingram- St David's Centre (Speaker) Siân Brooks- UWTSO (Speaker) Mrs Y Galsworthy
Conwy	Sir Benfro / Pembrokeshire Mary Parry Huw George Emyr Phillips	

Cofnodion/ Minutes

<p>1. Cyflwyniad a chroeso / <i>Introduction and welcome</i></p> <p>Dechreuodd Edward Evans y cyfarfod drwy egluro y byddai ef yn Cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Phil Lord, Cadeirydd CCYSAGau Cymru a Tania ap Sion, Cadeirydd CCYSAGauC newydd ymdeol.</p> <p>Croesawodd y Cyng. Huw George, Cadeirydd CYSAG Sir Benfro aelodau CCYSAGauC i Sir Benfro. Rhannodd glip fideo a oedd yn dangos golygfeydd o Sir Benfro o ddrôn, a grëwyd yn arbennig ar gyfer cyfarfod CCYSAGauC gan ddisgybl o ysgol leol. Roedd y disgybl wedi rhoi'r teitl <i>Paths for Pilgrims</i> ar y ffilm.</p> <p>2. Adfyfrio tawel / <i>Quiet reflection</i></p> <p>Diolchodd Edward i Huw George am y croeso a dywedodd air wrth yr aelodau am Sul y Mamau a phwysigrwydd rhannu ym mywydau pobl. Dyfynnodd Edward Evans eiriau'r bardd John Donne, 'No man is an island' a bu'r aelodau'n myfyrio ar y berthynas sydd gennym ag eraill, yn cynnwys ein perthynas â Duw ac â'n mamau.</p> <p>3. Ymddiheuriadau / <i>Apologies</i></p> <p>Phil Lord, Tania ap Sion, John Mitson, Tudor Thomas, Lynda Maddock, Andrew Pearce, Chris Abbas, Sharon Perry-Phillips, Neeta Singh Baicher, Sue Cave.</p> <p>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nglyn Ebwy, 25 Tachwedd 2015 / <i>Minutes of meeting held in Ebbw Vale, 25 November 2015 (t 10 eitem 9 sillafu December)</i></p> <p>Dywedodd Rheinallt Thomas fod angen rhoi'r enw Cymraeg am RE Ideas ar fersiwn Gymraeg y cofnodion, T4. Eitem 10. [Syniadau AG]</p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r</p>	<p>1. Cyflwyniad a chroeso / <i>Introduction and welcome</i></p> <p>Edward Evans began the meeting by explaining that he would be Chairing the meeting in the absence of both Phil Lord, Chair of WASACRE and Tania ap Sion, Immediate past Chair of WASACRE.</p> <p>Cllr Huw George, Chair of Pembrokeshire SACRE welcomed WASACRE members to Pembrokeshire. He shared a video clip showing views of Pembrokeshire from a drone, which had been created especially for the WASACRE meeting by a pupil from a local school. The pupil had called the film <i>Paths for Pilgrims</i>.</p> <p>2. Adfyfrio tawel / <i>Quiet reflection</i></p> <p>Edward gave thanks to Huw George for the welcome and shared some words with members about Mothering Sunday and the importance of sharing in peoples' lives. Edward Evans quoted the poet John Donne, saying, 'No man is an island' and members reflected on the relationships we have with others, including the relationship we have with God and our mothers.</p> <p>3. Ymddiheuriadau / <i>Apologies</i></p> <p>Phil Lord, Tania ap Sion, John Mitson, Tudor Thomas, Lynda Maddock, Andrew Pearce, Chris Abbas, Sharon Perry-Phillips, Neeta Singh Baicher, Sue Cave.</p> <p>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Ebbw Vales, 25 Tachwedd 2015 / <i>Minutes of meeting held in Ebbw Vale, 25 November 2015 (p10 item 9 spelling of December)</i></p> <p>Rheinallt Thomas pointed out that the Welsh name for RE Ideas needs translating on the Welsh part of the minutes, P4. Item 10.</p> <p>The minutes were accepted by members as a true</p>
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

cyfarfod.

5. Materion yn codi / *Matters arising*

T3, eitem 5. *Arolwg Bagloriaeth Cymru*.
Cadarnhaodd Libby Jones ei bod wedi anfon arolwg Bagloriaeth Cymru ac AG i'r ysgolion, fod y nifer a'i dychwelodd wedi bod yn eithaf da a bod dal amser i ysgolion anfon rhai yn ôl yn hwyr. Roedd rhai aelodau'n poeni nad oedd yr arolwg yn mynd yn bellach na'r Penaethiaid, sy'n gwneud penderfyniad i beidio â'i lenwi gan eu bod o bosibl yn amheus o'i bwrpas. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael cydlynwyr AG i lenwi'r arolwg fel y gallwn gyflwyno darlun mwy cywir i Lywodraeth Cymru a gallu cefnogi athrawon.

Gweithredu: Bydd Libby'n rhoi adborth ar ddadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg yng nghyfarfod nesaf CCYSAGauC ym mis Mehefin.

T4, Eitem 10. *U.F.A. Syniadau AG*.
Cadarnhaodd Rheinallt Thomas fod fersiwn Saesneg Syniadau AG ar gael yn llawn erbyn hyn ar y Wefan. www.religious-education-wales.org/news/archive sy'n rhan o wefan Peniarth. Mae'r deunydd cyfrwng Cymraeg i gyd ar y wefan hefyd, ond mae'r cyfeiriad yn wahanol, sef: www.addysg-grefyddol-cymru.org/newyddion/archif. Mae yna 48 o themâu i gyd ac mae'r syniadau wedi dod gan amrywiaeth o athrawon o bob cwr o Gymru. Awgrymodd Rheinallt fod dolen yn cael ei gosod o wefan CCYSAGauC i wefan Peniarth a chadarnhaodd nad oes problem hawlfraint.

Gweithredu: RT i anfon fersiwn Gymraeg y cyfeiriad e-bost i LJ drwy e-bost.

T4, Eitem 10. *Dogfen Ganllaw Esgusodi o AG*.
Mae Gill Vaisey wedi cyflwyno'r ddogfen ddrafft i PYCAG a bydd yn derfynol erbyn mis Mai 2016. Os oes gan yr aelodau unrhyw beth

record of the meeting.

5. Materion yn codi / *Matters arising*

P3, item 5. *Welsh Baccalaureate survey*. Libby Jones confirmed that she had sent out the Welsh Baccalaureate and RE survey to schools, that the return had been quite good and that there was still time for schools to send in any late returns. Some members were concerned that the survey wasn't getting past Headteachers, who are taking the decision not to fill it in as they may feel threatened by its purpose. The importance of RE coordinators completing the survey was highlighted so that we can present a truer picture to Welsh Government and be able to support teachers.

Action: Libby will give feedback on the analysis of the survey results at the next WASACRE meeting in June.

P4, Item 10. *A.O.B. RE Ideas*. Rheinallt Thomas assured members that the English version of RE Ideas is now fully available on the Website. www.religious-education-wales.org/news/archive which forms part of the Peniarth website. The Welsh medium material is all on the website too, but the web address is different, it is: www.addysg-grefyddol-cymru.org/newyddion/archif. There are 48 themes in all and the ideas have come from a variety of teachers from across Wales. Rheinallt suggested a link from the WASACRE website to the Peniarth website and confirmed that they are not subject to copyright.

Action: RT to email welsh version of website address to LJ.

P4, Item 10. *Withdrawal from RE Guidance document*. Gill Vaisey has presented the draft document at NAPfRE which will become final by May 2016. If members have anything to share

i'w rannu â Gill i'w ychwanegu at y ddogfen o safbwynt astudiaethau achos, dylid eu hanfon at Gill yn yr wythnos neu ddwy nesaf. Bydd y ddogfen ar gael i CYSAG wedi iddi gael ei chwblhau.

T9, Eitem 8. *Manylebau TGAU diwygiedig ar gyfer Astudiaethau Crefyddol*. Bydd CYSAG Ceredigion yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad o strwythur cyrsiau TGAU Astudiaethau Crefyddol ac i dynnu sylw at yr angen i gynnwys cyrsiau AC sydd yn berthnasol i bobl ifanc wrth ystyried swyddi, er enghraifft yn y proffesiynau gofal megis nyrsio a gofal cymunedol. Yn y drafodaeth a ddilynodd gwnaed y pwyntiau canlynol: Mae'n bwysig sicrhau fod safonau AC yn gyffelyb i safonau pynciau eraill TGAU; gallai cael un fanyleb AS yn hytrach na dwy achosi problemau i AC statudol CA4 a/neu AG dewisol, bydd PYCAG yn ysgrifennu at CBAC i ofyn am gyfarfod er mwyn trafod hyn ymhellach; pryder am ysgolion yn dwyn amser o AC ar gyfer cynlluniau eraill fel Bagloriaeth Cymru gydag apêl i athrawon roi gwybod i CYSAGau am unrhyw wasgu ar amser AC; ar hyn o bryd nid oes bwrsariaethau yng Nghymru i fyfyrwyr TAR AC ac mae llai o fyfyrwyr ôl-raddedig yn gwneud yr hyfforddiant hwn nag a oedd yn y gorffennol.

Gweithredu: LJ i roi gwybod i CCYSAGauC am y trafodaethau rhwng PYCAG a CBAC. LJ i roi bwrsariaethau TAR AC ar agenda'r cyfarfod nesaf â Llywodraeth Cymru.

T8. Eitem 7. *Cynhadledd Addoli ar y Cyd*. Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, mae CCYSAGauC wedi penderfynu peidio â threfnu cyfarfod gydag Alison Mawhinney ac academyddion eraill sydd ynghlwm â'r Gynhadledd Addoli ar y Cyd ar hyn o bryd.

Mae CYSAG Ceredigion wedi cysylltu â phob ysgol yn yr ALL i atgyfnerthu'r angen am addoli

with Gill to add to this document in terms of case studies please can they send them to Gill within the next couple of weeks. The document will be made available to SACRE once it is complete.

P9, Item 8. *Revised GCSE Specifications for Religious Studies*. Ceredigion SACRE will be writing to Welsh Government to request a review of the structure of Religious Studies GCSE courses and to highlight the need for the content of RS courses to be geared towards young people getting jobs, for example in the caring professions like nursing and community care. A discussion ensued and the following points were made: It is important to ensure that standards in RS have parity with other GCSE subjects; having only one RS specification rather than two could cause problems for KS4 statutory RE and/or optional RS, NAPfRE will be writing to WJEC to ask for a meeting to discuss this issue further; concern over schools taking time away from RS for other initiatives like Welsh Baccalaureate with a plea made to teachers to keep SACREs informed of any squeeze on RS time; there are currently no bursaries in Wales for RS PGCE students and that fewer post graduate students from Wales are taking up this training than in the past.

Action: LJ to keep WASACRE informed regarding discussions between NAPfRE and WJEC. LJ to put RS PGCE bursaries on the agenda for the next meeting with Welsh Government.

P8. Item 7. *Collective Worship conference*. In consultation with Welsh Government, WASACRE has decided not to pursue a meeting with Alison Mahwinney and other academics involved in the Collective Worship Conference at this time.

Ceredigion SACRE has contacted all schools in the LA to reinforce the need for worship during

ar y cyd yn ystod amser gwasanaeth ac na ddylid defnyddio'r amser hwn i bethau eraill. Mae Addoli ar y Cyd wedi cael ei drafod gan PYCAG a phenderfynodd y grŵp chwilio am enghreifftiau o arfer da i'w rhoi ar wefan CCYSAGauC er mwyn helpu ysgolion yn hyn o beth.

Codwyd hefyd y mater o gynrychiolaeth i'r Dyneiddwyr ar CYSAG a dysgu Dyneiddiaeth mewn ysgolion. Nid yw dyneiddwyr yn grŵp crefyddol ac felly ni allant fod ar Bwyllgor A, ond gall cynrychiolydd Dyneiddiol fod ar CYSAG fel aelod cyfetholedig, fel sydd eisoes yn digwydd mewn rhai CYSAGau. Cyfeiriwyd at agenda *Respect* o safbwynt rhai unigolion nad ydynt yn dangos parch i Gristnogaeth, a byddai hynny'n achosi problemau. Yn y pen draw CYSAGau unigol ddylai benderfynu ac mae'n dibynnu'n fawr ar y cyfraniad y gall y cynrychiolydd unigol ei wneud i CYSAG. Cadarnhawyd hefyd fod Dyneiddiaeth ar y fanyleb TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.

T10. Eitem 8. *Manylebau TGAU diwygiedig*. Cadarnhaodd Libby Jones na fyddai manyleb newydd TGAU Astudiaethau Crefyddol yn dechrau tan fis Medi 2017.

6. Cyflwyniad PYCAG/ *NAPfRE presentation*:

Siân Brooks, Tiwtor TAR, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. 'Cymhwysedd Digidol'/ Siân Brooks, PGCE Tutor USWTSD '*Digital Competence*'

Mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar wefan CCYSAGauC.

Diolchodd Bethan James, Cadeirydd PYCAG, i Siân am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol a thynnodd sylw at yr angen am ddarllen beirniadol wrth ddatblygu cymhwysedd digidol, a all ac sydd yn cael ei ddatblygu drwy AG. Roedd CYSAG Ceredigion yn pryderu y gallai

assembly time and that this should not be used for other matters. Collective worship has been discussed by NAPfRE and the group were resolved to find examples of good practice in a secondary school to put on the WASACRE website in order to support school in this area.

Humanist representation on SACRE and the teaching of Humanism in school was also raised. Humanists are not a religious group and therefore cannot be on Committee A, but a Humanist representative can be on SACRE as a co-opted member, as already happens in some SACREs currently. The Respect Agenda was referenced with regard to certain individuals not showing respect for Christianity, which would cause problems. Ultimately it is up to each individual SACRE to decide and largely depends on the contribution the individual representative can make to SACRE. It was also confirmed that Humanism is on the new GCSE RS specification.

P10. Item 8. *Revised GCSE specifications*. Libby Jones confirmed the deferment of the New RE specification for GCSE RS until September 2017.

6. Cyflwyniad NAPfRE/ *NAPfRE presentation*:

Siân Brooks, PTAR Tiwtor USWTSD. 'Cymhwysedd Digidol'/ Siân Brooks, PGCE Tutor USWTSD '*Digital Competence*'

A copy of this presentation is available on the WASACRE website.

Bethan James, Chair of NAPfRE thanked Siân for an interesting and informative presentation and highlighted the need for critical reading when developing digital competence, which can be and already is being developed through RE. Ceredigion SACRE raised the concern of the risk that writing and communication skills would be

sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu gael eu llesteirio drwy geisio datblygu cymhwysedd digidol. Pwysleisiodd Siân fod cyfle i ddal y drafodaeth mewn AG drwy gymhwysedd digidol, sy'n aml yn mynd ar goll ar ddiwedd gwrs, a bod honno'n bendant yn ymwneud â llafaredd yn hytrach nag ysgrifennu. Codwyd problem diffyg cyllid, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i alluogi sicrhau fod adnoddau digidol ar gael ym mhob ystafell ddsbarth i wneud i hyn weithio.

Gweithredu: Siân i anfon y dolenni o'r cyflwyniad i Libby.

Janet Ingram, Swyddog Addysg a Phererindod, Tŷ'r Pererin, esgobaeth Dewi Sant/ *Janet Ingram, Education and Pilgrimage officer, Tŷ'r Pererin, Diocese of St. David*

Mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar wefan CCYSAGauC.

Diolchwyd i Janet Ingram am ei chyflwyniad ysbrydoledig. Dywedodd Rachel Bendall fod ar fyfyrwyr TAR Cynradd angen y math hwn o hyfforddiant. Cadarnhaodd Janet Ingram nad yw'r cyflwyniad wedi cael ei rannu eto ag Esgobaethau eraill yng Nghymru. Awgrymwyd y gallai Tŷ'r Pererin ofyn i Hwb roi adnoddau ar-lein er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac fel bod mwy o ysgolion yn elwa ar y prosiect. Pwysleisiodd Janet mai dysgu drwy brofiad yw hanfod yr adnodd hwn.

7. Diweddariadau/Up-dates:

Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones

Darllenodd Libby'r nodiadau o'r cyfarfod a oedd yn cynnwys y canlynol: llawlyfr proffil y Cyfnod Sylfaen; diweddariad ar Adolygiad y Cwricwlwm; Adolygiad o'r ddeddfwriaeth AG bresennol; cynhadledd Addoli ar y Cyd; TGAU /

hampered by the development of digital competence. Siân emphasised the opportunity for capturing the debate in RE through digital competence, which is often lost at the end of the lesson, and that is very much about oracy, rather than writing. The issue of lack of funding was raised, especially in secondary schools, in order to enable digital resources to be available in all classrooms to make this work.

Action: Siân will send all the links from the presentation to Libby.

Janet Ingram, Swyddog Addysg a Phererindod, Tŷ'r Pererin, esgobaeth Dewi Sant/ *Janet Ingram, Education and Pilgrimage officer, Tŷ'r Pererin, Diocese of St. David*

A copy of this presentation is available on the WASACRE website.

Janet Ingram was thanked for her inspiring presentation. Rachel Bendall commented that Primary PGCE students need this type of training; Janet Ingram was able to confirm that the presentation has not yet been shared with other Diocese in Wales. It was suggested that Tŷ'r Pererin could reach out to Hwb to put resources online to enable a wider audience and more schools benefitting from the project. Janet emphasised that experiential learning is the key to this resource.

7. Diweddariadau/Up-dates:

Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones

Libby read out the notes from the meeting which included the following: Foundation Phase profile handbook; Curriculum Review update; Review of current RE legislation; Collective Worship conference; RE GCSE / A' level; Welsh

Lefel A AG; y gofyn gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi pob un o adroddiadau CYSAG; Diweddarau'r ddogfen canllaw absenoldeb Gwyliau Crefyddol ar gyfer 2016/17.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau.

Cais Llywodraeth Cymru i CCYSAGauC ddiweddarau dyddiadau gwyliau crefyddol ar y Canllawiau ar gyfer Presenoldeb yn yr Ysgol a Gwyliau Crefyddol 2016. Cododd Vicky Thomas y cwestiwn o atebolrwydd a chytunodd yr aelodau y dylai Libby gael sgwrs â'i chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac os yw hi'n amhosibl i LIC ei wneud, yna mae CCYSAGauC yn fodlon.

Cytunwyd y byddai CCYSAGauC yn ysgrifennu at y gwahanol bleidiau gwleidyddol i ofyn am eu safbwynt ar Addysg Grefyddol a DACW mewn ysgolion, gofyn a fyddent yn glynu at y trefniadau deddfwriaethol presennol pe bai cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno.

Gweithredu: LJ i gysylltu â'r Pleidiau ac anfon yr atebion i'r CYSAGau.

Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr/
Religious Education Council for England and Wales– Gill Vaisey

Nid oedd dim byd newydd neu fater brys i adrodd amdano. Mae'r cyfarfod nesaf ar 12 Mai yn Llundain ac mae Gill Vaisey'n gobeithio bod yn bresennol.

Cyfarfod y Fforwm Ffydd/*Faith Forum meeting*
– Phil Lord (cyflwynwyd gan Libby Jones)

Darllenodd Libby Jones y nodiadau a wnaed gan Phil Lord yn y cyfarfod. Roedd hi'n amlwg gan Manon Jones nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â newid natur CYSAG. Mynegwyd pryder am AG yn cael ei dysgu o fewn maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a sut byddai AG yn cymryd ei lle yn y cwricwlwm

Government requirement to publish all SACRE reports; Updating the Religious Festival absence guidance document for 2016/17.

The following points were raised by members.

Welsh Government request for WASACRE to up-date the religious festival dates on the WG School Attendance and Religious Festivals Guidance 2016. Vicky Thomas raised the issue of accountability and members agreed that Libby should have a conversation with WG colleagues and if it is impossible for WG to do it then WASACRE will.

It was agreed that WASACRE writes to various political parties to request their standpoint on Religious Education and DACW in schools, ask if they would adhere to the present legislative arrangements should a new curriculum be put forward.

Action: LJ will contact the Parties and send the replies to SACRES.

Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr/
Religious Education Council for England and Wales– Gill Vaisey

There was nothing new or urgent to report only that the next meeting is on 12 May in London. Gill Vaisey hopes to attend.

Cyfarfod y Fforwm Ffydd/*Faith Forum meeting*
– Phil Lord (delivered by Libby Jones)

Libby Jones read out the notes made by Phil Lord at the meeting. It was apparent from Manon Jones that no decision has been made as yet to change the nature of SACRE. Concern was raised regarding RE being taught within the Humanities area of Learning and Experience and how RE would sit together in the curriculum

ochr yn ochr â Hanes a Daeryddiaeth, gydag AG yn cael ei chytuno arni'n lleol gan y CYSAGau.

Pryderon eraill a godwyd oedd bod rhai ysgolion yn glastwreiddio cyfleoedd ein pobl ifanc gyda Bagloriaeth Cymru a rhifedd a llythrennedd. Hefyd nad yw Rhanddeiliaid (megis CCYSAGauC) yn gallu cymryd rhan yng nglo mân cynllunio'r cwricwlwm. Felly a allai CYSAGau unigol ddefnyddio'u harbenigedd i weithio gydag ysgolion arloesi ar ddatblygu'r cwricwlwm Dyniaethau ac AG newydd? Dywedodd Edward Evans mai dyma oedd diben CYSAGau. Sicrhawyd yr aelodau fod hyn yn digwydd yn y cefndir drwy PYCAG sydd â chynrychiolwyr o wahanol GYSGAau. Diolchwyd i Phil am yr adroddiad ac i Huw am ei gyfraniadau.

Dywedodd Gill y dylid ymbwyllo ac atgoffodd yr aelodau am y camgymeriadau a wnaed gyda dogfen y Cyfnod Sylfaen. Pwysodd ar CCYSAGAuC i ddsygu o'r profiad hwnnw. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn siŵr sut mae AG yn eistedd o fewn y cwricwlwm cenedlaethol, efallai fod angen i ni fod yn glir ynghylch beth rydym eisiau a rhoi mwy o feddwl iddo.

Gweithredu: LJ i roi 'AG a'i lle yn y cwricwlwm newydd' yn eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.

Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*-
Libby Jones

Bydd Rhwydwaith yr Ysgolion Arloesi yn cymryd rhan flaenllaw yng nghynllunio'r cwricwlwm newydd a threfniadau asesu gyda chynghor a chefnogaeth arbenigol. Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Cwricwlwm i Gymru yn cynnig her, cefnogaeth a chynghor wrth i ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae CCYSAGauC yn rhan o'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol hwn. Ni nodwyd hyd

with History and Geography, with RE being agreed locally by SACREs.

Other concerns raised were that some schools are dumbing down the opportunities of our young people with Welsh Baccalaureate and numeracy and literacy. Also that Stakeholders (such as WASACRE) cannot get involved in the nitty gritty of curriculum planning. Therefore could individual SACREs use their expertise to work with pioneer schools on the development of the new curriculum for Humanities and RE? Edward Evans commented that this is the purpose of SACREs. Members were assured that this is happening in the background through NAPfRE which has representatives from different SACREs on it. Thanks were given to Phil for the report and Huw for his contributions.

Gill Vaisey offered a reflection and reminded members of mistakes made with the Foundation Phase document. Gill urged WASACRE to learn from that experience. If Welsh Government is not clear how RE sits within the national curriculum maybe we need to be clear what we want and we need to give it more thought.

Action: LJ to make 'RE and its place within the new curriculum' an agenda item for the next meeting.

Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*-
Libby Jones

The Pioneer Schools Network will be at the forefront of designing the new curriculum and assessment arrangements with expert advice and support. The Curriculum for Wales Strategic Stakeholder Group will provide challenge, support and advice as we work together to develop the new curriculum. WASACRE form part of this Strategic Stakeholder Group. The Pioneer Schools focussing on Humanities have

yma pa Ysgolion Arloesi fydd yn canolbwyntio ar y Dyniaethau, ond wedi i hynny ddigwydd, bydd Manon Jones, Pennaeth Cynllunio a Datblygu meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn trafod gyda PL ac LJ y rhan y gallai CCYSAGauC ei chwarae yn y broses ddatblygu. Bydd rhai arbenigwyr yn gweithio gyda'r Arloeswyr i ddatblygu cwrpas a chynnwys y Maes Dysgu a Phrofi tra bydd eraill yn darparu sicrhad ansawdd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol na ddylai'r rheiny sy'n darparu sicrhad ansawdd gymryd rhan lawn yn y gwaith datblygu er mwyn sicrhau proses effeithiol.

8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2016/ *Report from the Executive Committee held on 4 February 2016*

Gofynnodd VT am eglurhad ar y swyddi ar y Pwyllgor Gwaith. Cadarnhaodd LJ fod 3 swydd ar gael ynghyd â swydd yr Is Gadeirydd. Cadarnhawyd hefyd y gall aelod gael ei enwebu i'r ddau a dywedodd Edward Evans fod angen i bob pwyllgor gael ei gynrychioli.

9. Gohebiaeth /*Correspondence*

Dim na thrafodwyd yn barod yn y cyfarfod.

10. U.F.A. / *A.O.B.*

Siaradodd Mary Parry â'r aelodau am y problemau sy'n gysylltiedig ag *Incerts*, sef offeryn tracio asesu masnachol a ddefnyddir gan nifer o ysgolion yng Nghymru. I bob pwnc arall heblaw AG mae'r disgrifiadau lefel o fewn y rhaglen yn briodol i Gymru. Ond, ar gyfer AG, mae'n rhaid i'r athro ddewis y set addas o ddisgrifiadau lefel i'w defnyddio yn eu lleoliad nhw. Bu hyn yn ddryslyd i rai athrawon ac mae yna bryder nad yw rhai ysgolion yn defnyddio'r disgrifiadau lefel o'r Fframwaith Enghreifftiol ar

not been identified yet, but once they have been Manon Jones, Head of Areas of Learning and Experience Design and Development for Humanities will discuss with PL and LJ the role WASACRE could play in the development process. Some experts will work with the Pioneers to develop the scope and content of the Area of Learning and Experience while others will provide quality assurance. Welsh Government is mindful that those providing quality assurance should not be fully involved in the development work to ensure an effective process.

8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2016/ *Report from the Executive Committee held on 4 February 2016*

VT asked for clarification of the Executive positions. LJ confirmed that there are 3 positions available plus the position of Vice Chair. It was also confirmed that a member can be nominated for both and Edward Evans raised the need for coverage of all committees.

9. Gohebiaeth /*Correspondence*

None that had not already been dealt with in the meeting.

10. U.F.A. / *A.O.B.*

Mary Parry spoke to members about the issues relating to *Incerts* which is a commercial assessment tracker used by many schools in Wales. For all other subjects apart from RE the level descriptions within the program are appropriate for Wales. However, for RE the teacher has to choose the appropriate set of level descriptions to use for their setting. This has proved confusing for some teachers and there is concern that some schools are not using the level descriptions from the Exemplar Framework for RE which has been adopted by all 22 SACREs in

gyfer AG, a fabwysiadwyd gan y 22 CYSAG yng Nghymru fel rhan o'u Maes Llafur Cytûn, felly'n gwneud y lefelau yn statudol. Mae PYCAG wedi gofyn i CCYSAGauC ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gymeradwyo'r datganiad canlynol '*Mae'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu deilliannau a disgrifiadau lefel Fframwaith Enghreifftiol Genedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol Llywodraeth Cymru ac felly y rhain yw'r gofynion asesu statudol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.* Cytunodd pob aelod oedd yn bresennol â hyn.

Gweithredu- LJ i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gymeradwyo'r datganiad hwn. Yn dilyn hyn, gellid anfon llythyr i *Incerts* a Rheolwr-Gyfarwyddwyr y 4 consortiwm yng Nghymru i dynnu eu sylw at y broblem ac i gadarnhau'r datganiad.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting: Haf, 23 Mehefin 2016, Sir Ddinbych / yn y Summer, 23 June 2016, Denbighshire In **Rhyl.***
12. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates: Hydref, 18 Tachwedd, 2016 Sir Gaerfyrddin /Autumn, 18 November 2016, Carmarthenshire; Gwanwyn 2017, Sir Fynwy / Spring 2017, Monmouthshire. 17 March in Usk.*

Wales as part of their Agreed Syllabus, which therefore makes the levels statutory. NAPfRE requested that WASACRE writes to Welsh Government to ask them to endorse the following statement. '*All 22 local authorities in Wales have adopted the outcomes and level descriptions of the Welsh Government National Exemplar Framework for RE and therefore these are the statutory assessment requirements for all maintained schools in Wales.*' All members present agreed.

Action- LJ will write to Welsh Government to request an endorsement of this statement. Following this a letter could be sent to INCERTS and the Managing Directors of the 4 consortia in Wales to alert them to the issue and to confirm the statement.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting: Haf, 23 Mehefin 2016, Sir Ddinbych / Summer, 23 June 2016, Denbighshire In **Rhyl.***
12. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates: Hydref, 18 Tachwedd, 2016 Sir Gaerfyrddin /Autumn, 18 November 2016, Carmarthenshire; Gwanwyn 2017, Sir Fynwy / Spring 2017, Monmouthshire. 17 March in Usk.*

Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (Mehefin 23, 2016)

Nominations for the Executive Committee (23 June 2016)

Mae PEDWAR o enwebiadau ar gyfer TAIR swydd ar y Pwyllgor Gwaith.

There are FOUR nominations for THREE positions on the Executive Committee.

1. Mary Parry – CYSAG Sir Gaerfyrddin

- Mae gen i brofiad helaeth o weithio ym maes Addysg Grefyddol ac rwy'n angerddol am bwysigrwydd y pwnc i ddatblygu pobl ifanc gyflawn yng Nghymru heddiw. Rwy'n barod bob amser i ymladd dros le teilwng i Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm.
- Rwyf yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyda Sir Gaerfyrddin (a Dyfed cyn hynny) ers 22 o flynyddoedd. Gyda'r ad-drefnu diweddar, teitl fy swydd bellach yw 'Ymgynghorydd Her Cysylltiol ERW' sef Consortiwm Rhanbarthol De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru.
- Rwyf yn swyddog proffesiynol i GYSAG Sir Gaerfyrddin. Yn rhinwedd y swydd hon, rwyf wedi bod ynghlwm wrth lunio meysydd llafur cytûn y sir a deunyddiau cefnogi. Yn ychwanegol at hyn, rwyf newydd dderbyn cynnig i weithio gyda CYSAG Sir Benfro fel ei swyddog proffesiynol.
- Rwyf yn aelod gweithgar o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru ers 20 o flynyddoedd ac rwy'n cyfranogi'n rheolaidd yng nghyfarfodydd tymhorol y Gymdeithas. Er enghraifft, y llynedd, rhoddais gyflwyniad yng nghyfarfod tymor y Gwanwyn ar uned o waith Addysg Grefyddol a luniais ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 'Pêl-droedwyr Mwslimaidd yn yr Uwch Gynghrair'.
- Rwy'n cynghori a chefnogi athrawon ar weithredu Maes Llafur Cytûn yr ALL ac ar addysgu Addysg Grefyddol yn effeithiol. Rwyf wedi darparu llawer o gyrsiau ac adnoddau dwyieithog ar gyfer ysgolion - yn sir Gâr ac mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.
- Rwyf wedi gweithio gyda chyrrff allanol ar faterion sy'n ymwneud ag AGr, megis CBAC, Estyn a Llywodraeth Cymru. Er enghraifft rwy'n arolygu ysgolion o dan gytundeb Estyn a bûm yn rhan o dîm Estyn a ysgrifennodd yr adroddiad ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn ddiweddar.
- Cyn fy swydd bresennol bûm yn bennaeth yr adran Addysg Grefyddol ac yn bennaeth yr ysgol iau yn Ysgol Gyfun Emlyn, Sir Gâr.
- Gyda'r profiad hwn, teimlaf y gallaf barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i weithgor CCYSAGau Cymru a byddai'n fraint i barhau i wasanaethu arno.

1. Mary Parry – Carmarthenshire SACRE

- I have been working in the field of Religious Education for many years and I am very passionate about the importance of the subject in developing well-rounded young people in Wales today. I am always prepared to fight for the rightful place of RE in the curriculum.

- I have been a Religious Education Advisor in Carmarthenshire (and its predecessor, Dyfed) for 22 years. With recent reorganisation my title is now an ERW Associate Challenge Adviser - the South, West and Mid Wales Regional Consortium.
- I am the professional officer to the Carmarthenshire SACRE. As such, I have been involved in drawing up the LA's RE Agreed syllabuses and support materials. In addition, I have recently accepted the invitation to work with the Pembrokeshire SACRE as its professional officer.
- I have been an active member of the WASACRE executive committee for 20 years and participate regularly at WASACRE meetings. For example, last year I gave a presentation at the spring term meeting on an RE unit of work which I had created for secondary schools, 'Muslim footballers in the Premier League'.
- I advise and support teachers in implementing the LA Agreed Syllabus and in teaching RE effectively. I have provided many bilingual courses and resources for schools – both in Carmarthenshire and in other LAs in Wales.
- I have worked with external bodies such as WJEC, Estyn and Welsh Government on matters relating to RE. For example, I inspect schools under Estyn contract and was one of the three inspectors who undertook the Estyn thematic review of RE in secondary schools in Wales.
- Before my present position, I was the head of RE and the head of lower school in Newcastle Emlyn Comprehensive school, Carmarthenshire.
- With this experience, I feel that I can continue to make a valuable contribution to the WASACRE executive and would find it a privilege to continue to serve on it.

2. Huw Stephens, M.A., B.Ed.- CYSAG Casnewydd

Bûm yn athro Addysg Grefyddol am 39 mlynedd tan i mi ymddeol yn 2012. Roedd fy ngyrfa yn y sector Uwchradd – Fair view, Y Coed Duon, Ysgol Queen's, Casnewydd, ac Ysgol Basaleg, Casnewydd. Dysgais y Cwrs Byr a Chwrs Llawn T.G.A.U., a Lefel A Addysg Grefyddol.

Roeddwn yn Bennaeth Blwyddyn 7, ac felly'n cymryd rhan yn ochr Fugeiliol bywyd yr ysgol ac yn gwneud llawer gyda disgyblion oedd yn trosglwyddo o'r Cynradd i'r ysgol Uwchradd. Bûm hefyd yn gwasanaethu fel Athro Lywodraethwr yn Ysgolion Queen's a Basaleg.

Cyn ymddeol, cefais fy enwebu fel cynrychiolydd i'r Bedyddwyr ar GYSAG Casnewydd ac rwyf wedi bod yn aelod rheolaidd a gweithgar ar y pwyllgor hwnnw, hefyd yn mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC, fel cynrychiolydd Casnewydd.

Rwyf wedi chwarae rhan amlwg ym mywyd yr Eglwys leol, ac wedi ymddeol, cefais fy Ordeinio a'm Sefydlu fel Cyd-Weinidog yn fy Eglwys Fedyddwyr leol yn Rogerstone, Casnewydd.

Rwyf wedi bod yn briod â Rachel fy ngwraig, ers 30 mlynedd, ac mae gennym dair merch wedi tyfu i fyny – y tair ohonynt wedi priodi o fewn 10 mis i'w gilydd, yn syth ar ôl i mi ymddeol!

Mae gen i ddiddordeb mawr yn y ffordd y mae Astudiaethau Crefyddol yn datblygu ac rwyf yn ymwybodol fod CCYSAGauC mewn lle unigryw i gael llais cryf a gwybodus fel rhanddeiliad yn y trafodaethau parhaus am ffurf y cwricwlwm newydd. Rwyf yn barod i ddod â'm profiad a'm brwdfrydedd dros Astudiaethau Crefyddol i'r rôl y cefais fy enwebu ar ei chyfer.

2. Huw Stephens, M.A., B.Ed.- Newport SACRE

I was a Religious Studies teacher for 39 years until my retirement in 2012. My career was in the Secondary sector – Fair view, Blackwood, Queen's School, Newport, and Bassaleg School, Newport. I taught G.C.S.E. Short and Full Course, and Advanced Level religious Studies.

I was a Head of Year 7, involved in the Pastoral side of school life and heavily associated with the transition of pupils from Junior to Secondary school. I also served as a Teacher Governor at Queen's and Bassaleg Schools.

Before my retirement, I was nominated as a Baptist representative on Newport SACRE and have been a regular member and contributor on that committee, also attending WASACRE meetings, as a Newport representative.

I have been involved in local Church life and, in retirement, have been Ordained and Inducted as a Co-Pastor in my local Baptist Church in Rogerstone, Newport.

I have been married to Rachel, my wife, for 30 years, with three grown up daughters - all married within 10 months of each other, just after my retirement!

I am very interested in the way Religious Studies is developing and am aware that WASACRE is uniquely placed to have a strong and informed voice as a stakeholder in ongoing discussions about the shape of the new curriculum. I am willing to bring my experience and passion for Religious Studies to the role for which I have been nominated.

3. Moses Tutesigensi- CYSAG Powys

Dywedodd rhywun rywbryd fod gan y rhan fwyaf o bobl ddau ddiwylliant - diwylliant eu rhieni a diwylliant eu cenhedlaeth. Gall rhai feddu ar drydydd os yw eu hynafiaid yn dod o rywle gwahanol i'r lle maent yn byw ynddo! O'm rhan i, mae gen i o leiaf 4 diwylliant sy'n pwysu ar fy hunaniaeth - roeddwn yn blentyn yn Uganda, yn laslanc yn Lloegr, a bellach yn oedolyn ifanc yng Nghymru. Yn fwy pwysig na'r tri yna, yw'r pedwerydd - wedi cael fy magu ar aelwyd Gristnogol, deuthum yn Gristion ailanedig yn 15 oed.

Tua 15 oed oeddwn i pan ddeuthum i gysylltiad â CYSAG am y tro cyntaf. Yn fy ysgol, roeddwn yn cymryd rhan ar banel athrawon-disgyblion o'r enw 'Section 23' a nod y panel hwn oedd datblygu ethos Cristnogol yr ysgol (ysgol Gatholig oedd hi). Ac felly, dywedodd fy mhennaeth blwyddyn wrtha'i fod CYSAG Portsmouth yn ystyried sefydlu fforwm ieuencid i bobl ifanc â ffydd. I dorri stori hir yn fyr, roeddwn yn un o aelodau sylfaenol Fforwm Rhyng-ffydd Ieuencid Portsmouth, un o'r fforymau rhyng-ffydd cyntaf yn ne Lloegr. Parhaodd fy nghysylltiad â CYSAG Portsmouth tan 2014 wrth i mi gefnogi'r mudiad, yn ogystal â bod yn siaradwr mewn diwrnod cyfoethogi AG yn y ddinas.

Dyma fy wythfed flynedd o fyw yng Nghymru, wedi syrthio mewn cariad â'r lle a'r bobl wrth astudio biocemeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Wedi graddio, treuliais ychydig o amser yn gwirfoddoli gyda Chymorth Cristnogol ac ar yn un pryd yn helpu gwaith dwy eglwys roeddwn wedi'u mynychu fel myfyriwr - St Philip's yn Nhremorfa, Caerdydd a phlwyf Bargoed, Deri a Brithdir yng Nghwm Rhymni. Rwyf bellach yn gweithio gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghanolbarth Cymru fel Galluogwr Cenhadol ers canol 2013. Drwy fy ngwaith bob dydd rwyf yn dod i gysylltiad â gwahanol ysgolion, gwahanol gymunedau, ac eglwysi sydd â heriau gwahanol. Credaf yn gryf fod gan bobl o ffydd rôl allweddol yn yr amgylchiadau hynny i gyd.

Un o adnodau'r Beibl y ceisiaf lynu wrthi yw'r hyn a ddywed Duw drwy Eiseia wrth ei bobl - 'dysgwch wneud daioni, ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig, amddiffynnwch yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw'. Mae'r rhain yn themâu y gellir eu harchwilio'n synhwyrol mewn cymdeithas luosryw grefyddol fel hon, ac i'r perwyl hwnnw y gobeithiaf y gallaf fod o ddefnydd ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

3. Moses Tutesigensi- Powys SACRE

It has been said that most people occupy two cultures - that of their parents and the one of their generation. Some may have a third if their ancestry is of a different nation to their residence! As for me, I have at least 4 cultures that burden my identity - I was a child in Uganda, a teenager in England, and now a young adult in Wales. More fundamental to me than those three, is the fourth - having been raised in a Christian household, I became a born again Christian at age 15.

It was around the age of 15 that I first came into contact with a SACRE. At my school, I had gotten involved with a teacher-pupil panel called 'Section 23' which was charged with developing the christian ethos of the school (I went to a Roman Catholic school). And so, my head of year informed me that Portsmouth SACRE was looking to set up a youth forum for young people of faith. To cut a long story short, I subsequently became a founding member of the Portsmouth Youth Interfaith Forum, which was one of the first youth interfaith forum in southern England. My involvement with Portsmouth SACRE continued until 2014 by virtue of my supporting the organising, as well as being a speaker at, a city wide RE enrichment day.

I am now in my eighth year of living in Wales, after becoming besotted with the place and the people whilst studying biochemistry at Cardiff University. After graduating, I spent some time volunteering with Christian Aid whilst also supporting the work of two churches that I had become involved in as a student - St Philip's in Tremorfa, Cardiff and the parish of Bargoed, Deri and Brithdir in the Rhymney valley. I have now been working with the Presbyterian Church of Wales in Mid Wales as a mission enabler since mid 2013. My everyday work sees me coming into contact with different schools, different communities, and churches with different challenges. My core belief is that in all those circumstances people of faith have a critical role to play.

A Bible verse that I aspire to live by is taken from what God says through Isaiah to his people - 'learn to do good, seek justice, rebuke the oppressor, defend the fatherless, plead for the widow'. These are themes that can be explored sensibly in a religiously plural society like ours, and it is to this end I hope I can usefully serve on the WASACRE Executive.

4. Mathew Maidment – CYSAG Rhondda Cynon Taf

Rwyf wedi bod yn gweithio yn Ysgol Gyfun Bryn Celynnog ers dros ugain mlynedd. Wedi graddio o UWIC, dechreuais fy ngyrfa fel athro Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol yn 1995. Yn dilyn anaf pêl-droed difrifol, deuthum yn aelod llawn-amser o'r adran Addysg Grefyddol a bellach rwyf yn bennaeth AG. Rwyf wedi dal nifer o swyddi yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol yn cynnwys cydlynu AbaCh, Ffeil Cynnydd, Anogwyr Dysgu a Sgiliau Allweddol, ac, wedi bod yn Bennaeth Blwyddyn ac yn sgil bod yn Bennaeth yr Ysgol Isaf, rwyf yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli Estynedig ers y pedair blynedd ddiwethaf.

Rwyf yn frwd dros Addysg Grefyddol ac yn ddiweddar deuthum yn aelod o GYSAG Rhondda Cynon Taf. Bum hefyd yng nghyfarfod CCYSAGauC yng Nglyn Ebwy ar 25 Tachwedd. Wrth fynychu cyfarfodydd CYSAG RCT a CCYSAGauC, sylweddolais bwysigrwydd y cyrff hyn. Gyda'r newidiadau sydd ar droed mewn addysg yng Nghymru, credaf fod rôl CCYSAGauC yn hanfodol ar yr adeg yma. Wrth i amser y cwricwlwm gael ei wasgu, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn glynu wrth y rhwymedigaeth statudol sydd ar ysgolion i gyflwyno AG addas ac ystyrion, ar draws pob cyfnod allweddol.

Yn CA4 rwyf yn poeni'n arbennig am y syniad o AG fel rhywbeth wrth fynd heibio sy'n rhan o gymwysterau eraill megis y Fagloriaeth Gymreig. Credaf fod angen i ni sicrhau fod ysgolion yn cynnig rhaglenni AG sy'n ymdrin yn effeithiol â maes llafur y cytunwyd arno, gydag amser rheolaidd a phriodol iddo ar y cwricwlwm ar draws blynyddoedd 10 ac 11.

Teimlaf fod yr opsiynau TGAU presennol gan CBAC wedi gweithio'n arbennig o dda, gydag opsiwn B, yn arbennig, yn ddiddorol i ddisgyblion CA4, waeth beth fo'u cefndir crefyddol neu ddigrefydd. Rwyf yn edrych ymlaen gyda diddordeb mawr felly at y manylebau TGAU newydd. Penderfynais gysylltu â Lynda Maddock (CBAC) i fynegi fy ngobeithion ar gyfer y cymhwyster newydd a'm cefnogaeth i'r gwaith y mae hi'n ei wneud. Ymhellach, cefais fy ngwahodd yn ddiweddar, gan Gill Vaisey, i fynychu cyfarfod posibl gyda Gareth Pierce (CBAC). Gofynnwyd am y cyfarfod hwn gan gynrychiolwyr o NAPFRE a CCYSAGauC i drafod rhai o'r materion sydd ynghlwm â'r TGAU newydd.

Gobeithiaf y byddai fy mhrofiad fel athro a Phennaeth Adran AG yn y sector uwchradd, yn ystod yr amser hwn o newid yn addysg Cymru, yn werthfawr i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC a byddwn yn ddiolchgar i gael cyfle i wasanaethu'r pwyllgor pe cawn fy mhenodi.

4. Mathew Maidment – Rhondda Cynon Taf SACRE

I have worked at Bryn Celynnog Comprehensive School for over twenty years. Having graduated from UWIC, I started my career as a teacher of Physical Education and Religious Education in 1995.

Following a serious football injury I became a full-time member of the Religious Education department and am now Head of RE. I have held a number of roles during my time at the school including the coordination of PSE, Progress File, Learning Coaching and Key Skills and, having been both a Head of Year and Head of Lower School, I have been a member of the Extended Senior Management Team for the past four years.

I am passionate about Religious Education and recently became a member of the RCT SACRE. I also attended the WASACRE meeting in Ebbw Vale on the 25th November. Attending the RCT SACRE and the WASACRE meetings made me realise the importance of these organisations. With the changes taking place, within education in Wales, I believe the role of WASACRE is vital at this time. As curriculum time is squeezed we must ensure that the statutory obligation for schools to deliver appropriate and meaningful RE, across all key stages, is being adhered to.

At KS4 I am particularly concerned at the prospect of 'token gesture' RE being delivered as part of other qualifications such as the Welsh Baccalaureate. I believe we need to ensure that schools provide RE programmes that effectively cover an agreed syllabus, with regular and appropriate curriculum time across years 10 and 11.

I feel that the current WJEC GCSE options have worked extremely well, with option B, especially, proving engaging for KS4 pupils, regardless of their religious or non-religious backgrounds. It is, therefore, with great interest that I await the new GCSE specifications. I have been proactive in contacting Lynda Maddock (WJEC) to express my hopes for the new qualification and my support for the work she is doing. Furthermore, I was recently invited, by Gill Vaisey, to attend a potential meeting with Gareth Pierce (WJEC). This meeting has been requested by representatives from NAPfRE and WASACRE to discuss some of the issues surrounding the new GCSE.

I hope my experience as a teacher of RE and Head of Department in the secondary school setting, during this time of change within Welsh education, would be of value to the WASACRE Executive Committee and I would be grateful for the opportunity to serve the committee if appointed as a member.